Adroddiad Ymchwil Tai AYT 07/04 - Rhagfyr 2004

Llywodraeth Cynulliad Cymru

# Adolygiad o Addysg a Hyfforddiant Proffesiynol ym Maes Tai yng Nghymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mae copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn ar gael yn rhad ac am ddim oddi wrth:

Helen Wyatt
Uned Ymchwil a Gwybodaeth
Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: (02920) 821718
E-bost: helen.wyatt@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: http://www.tai.cymru.gov.uk/

ISBN 0 7504 3661 1
Cynlluniwyd gan Cartograffeg

© Hawlfraint y Goron 2004
Cysodi gan Gwasanaethau Prosesi Testun

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 1 |
| 2 | Canlyniadau'r Arolwg Trwy'r Post | 5 |
| 3 | Adolygiad o Gyrsiau yng Nghymru a Chyrsiau Ôl-Raddedig yn y Du | 9 |
| 4 | Barn a Safbwyntiau'r Budd-Ddeiliaid | 21 |
| 5 | Addysg Ôl-Raddedig ym Maes Tai ym Mhrifysgol Caerdydd | 29 |
| 6 | Grwpiau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig | 37 |
| 7 | Casgliadau ac Awgrymiadau Polisi | 41 |

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir i'r astudiaeth

Mae "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru: Strategaeth Dai Genedlaethol i Gymru" yn cynnwys gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran tai yng Nghymru:

*"Rydyn ni eisiau i bawb yng Nghymru gael cyfle i fyw mewn tai fforddiadwy sydd o ansawdd da; a gallu dewis lle maent yn byw a phenderfynu ai prynu neu rentu ydy'r opsiwn gorau iddynt hwy a'u teuluoedd."*

Mae addysg a hyfforddiant proffesiynol o safon uchel ym maes tai yn hanfodol ar gyfer pawb sy'n ymwneud â rheoli a datblygu tai cymdeithasol. Mae "Cartrefi Gwell" yn dangos yn glir y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i annog landlordiaid tai cymdeithasol, mewn partneriaeth glos â sefydliadau addysg uwch a'r Sefydliad Siartredig Tai, i alluogi gweithwyr proffesiynol ym maes tai i gael mynediad at yr addysg a'r hyfforddiant y mae arnynt eu hangen. Wrth rheswm, mae'r anghenion addysg a hyfforddiant proffesiynol yn amrywio ar draws Cymru ac mae'n haws i sefydliadau tai yn lleol eu hasesu a'u diwallu. Ond mae Llywodraeth y Cynulliad yn chwarae rôl wrth sicrhau bod cyrff tai yn cael mynediad rhwydd at gyfleusterau hyfforddi a datblygu tai o safon uchel. Defnyddir arian o'r Rhaglen Grant Rheoli Tai Cymdeithasol er mwyn cyflawni'r rôl hon.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arian grant i Brifysgol Caerdydd i roi ysgoloriaethau i fyfyrwyr ar ei chwrs Diploma (DipOR)/MSc Ôl-Raddedig mewn Tai. Mae'r ysgoloriaeth yn talu 50% o gostau myfyriwr amser llawn gyda'r gweddill yn cael eu talu gan noddwr, y cyflogwr fel arfer. Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i ddarparu tua £94,000 o gyllid ar gyfer myfyrwyr 2002-03 a 2003-04. Yn dilyn cwblhau asesiad cychwynnol ar y cynllun ysgoloriaeth yn 2001, daeth Llywodraeth y Cynulliad i'r casgliad y dylid cynnal asesiad ehangach o addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai.

Am y rheswm hwn, comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad ECOTEC Research and Consulting yn Haf 2003 i gynnal adolygiad o addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai yng Nghymru.

## Nod ac amcanion yr adolygiad

Nod y prosiect oedd gwerthuso'r addysg a'r hyfforddiant proffesiynol ym maes tai a ddarperir ledled Cymru trwy, yn benodol:

- Nodi angen awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCC) am addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai;
- Asesu'r ddarpariaeth o addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai yng Nghymru;
- Nodi'r graddau y mae'r gwasanaethau a ddarperir ac arian y Cynulliad yn diwallu anghenion landlordiaid cymdeithasol;
- Asesu'r cyfleoedd a'r dewisiadau i alluogi myfyrwyr a gweithwyr proffesiynol duon ac o leiafrifoedd ethnig (BME) i ddilyn cyrsiau addysg a hyfforddiant ym maes tai; ac
- Argymell y dewisiadau ar gyfer cyllid gan Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol.

Fel rhan o'r broses hon roedd Llywodraeth y Cynulliad am archwilio'n benodol a yw:

- Y cynllun ysgoloriaeth yn cynnig gwerth am arian ac a yw'n diwallu anghenion landlordiaid cymdeithasol tu allan i Dde Cymru'n ddigonol; a

- All cyllid gael ei ddefnyddio hefyd i gefnogi myfyrwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes tai sy'n dilyn cyrsiau ar lefel Israddedig, Tystysgrif Addysg Genedlaethol Uwch (HNC), Diploma Addysg Uwch a lefelau eraill.

## Methodoleg

Crynhoir y dull a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru isod. Mae'r adran hon yn nodi'r rhesymeg tu ôl i'r dull a fabwysiadwyd a rhai manylion cychwynnol am y gwaith a wnaed. Mae'r penodau sy'n weddill yn yr adroddiad hwn yn rhoi deunydd ychwanegol ynglŷn â'r dull, y canlyniadau a'r casgliadau a wnaed.

Roedd y methodoleg a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth yn cael ei gyfeirio gan ddymuniad i ddeall pa gyrsiau amrywiol sydd ar gael i unigolion sy'n dymuno dilyn astudiaethau ym maes tai yng Nghymru a'r graddau y mae ffurf a chynnwys y dewisiadau astudio yn diwallu anghenion y proffesiwn tai yng Nghymru. Ystyrid bod barn y sefydliadau sy'n darparu amrywiol ddewisiadau astudio, fel arbenigwyr mewn addysg broffesiynol ym maes tai yng nghyd-destun Cymru, yn berthnasol iawn. Ceisiodd yr astudiaeth farn gan rai eraill sydd â diddordeb, gan gynnwys: Panel Prif Swyddogion Tai Cymru Gyfan (AWCHOP), Sefydliad Siartredig Tai (CIH Cymru a'r CIH yn Lloegr), Shelter Cymru, Housing Potential a Peter Williams (cynllunydd gwreiddiol y Cyrsiau Tai Ôl-Raddedig yng Nghaerdydd ac yn awr yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Cyngor Benthycwyr Morgais). Roedd yr astudiaeth hefyd yn awyddus i sicrhau bod anghenion grwpiau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu hystyried. Yn olaf, o ystyried cefnogaeth bresennol Llywodraeth y Cynulliad i astudio ôl-raddedig ym Mhrifysgol Caerdydd, cymerodd yr astudiaeth olwg fanwl ar y Cynllun Ysgoloriaeth.

Mae'r astudiaeth yn rhoi gwybodaeth gefndir ar Addysg Broffesiynol ym Maes Tai yng Nghymru ac yn sefydlu barn y rhai sy'n ymwneud â hi, boed yn ddarparwyr neu'n ddefnyddwyr. Ond, nid yw'r astudiaeth wedi ceisio asesu'r galw ***manwl*** am addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai, boed ar lefel Ôl-raddedig neu lefelau eraill. Byddai'n rhaid i hynny fod yn destun astudiaethau eraill manylach yng nghyd-destun y strategaeth sy'n datblygu ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Proffesiynol ym Maes Tai.

Gwahanol gyfnodau'r ymchwil a'r rhesymeg ar gyfer pob cyfnod oedd:

**Cyfnod 1**: Er mwyn cael golwg mor gynhwysfawr â phosibl gan landlordiaid cymdeithasol, anfonwyd holiadur trwy'r post allan i bob Adran Tai Awdurdod Lleol a'r prif Gymdeithasau Tai yng Nghymru yn holi am wybodaeth gefndirol gan bob un ohonynt. Roedd yr holiadur hefyd yn holi am:

- Ofynion landlordiaid cymdeithasol am addysg a hyfforddiant proffesiynol i'w staff;

- Y graddau y mae cyrsiau cyfredol yng Nghymru yn ymdrin â'u hanghenion; a

- Barn ar bwysigrwydd addysg ôl-raddedig ac ymchwil yng Nghymru.

Gofynnwyd cwestiynau ychwanegol am gyrsiau Ôl-raddedig Prifysgol Caerdydd a materion yn ymwneud â grwpiau o bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Derbyniwyd rhagor o farn landlordiaid cymdeithasol ar gyfnod 2 o'r astudiaeth trwy Banel Prif Swyddogion Tai Cymru Gyfan.

**Cyfnod 2**: Roedd yr ail gyfnod yn cynnwys llunio disgrifiad cynhwysfawr o'r holl gyrsiau hyfforddiant ac addysg proffesiynol ym maes tai yng Nghymru, yn ogystal â chymryd golwg ehangach ar gyrsiau ôl-raddedig yn y DU. Bwriad hyn oedd gosod y ddarpariaeth yng Nghymru mewn cyd-destun ehangach a darparu modd o gyferbynnu argaeledd gwahanol ddewisiadau astudio yng Nghymru a'r DU. Rhoddwyd cyfweliad i gynrychiolwyr y sefydliadau addysgol canlynol:

- Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (UWIC)
- Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru Wrecsam (NEWI)
- Prifysgol Caerdydd
- Coleg Gwent

Roedd y cyfweliadau'n dilyn dull wedi ei strwythuro gyda'r amcan o gasglu beth yw'r materion allweddol sy'n wynebu addysg ym maes tai yng Nghymru, gan gynnwys: newidiadau strwythurol, sut y mae'r sector yn ymateb i amgylchedd sy'n newid, recriwtio ar gyrsiau a'r cydbwysedd mewn darpariaeth addysgol yng Nghymru.

Ymgynghorwyd â chynrychiolwyr sefydliadau perthnasol eraill. Sef:

- Panel Prif Swyddogion Tai Cymru Gyfan (AWCHOP),
- Sefydliad Siartredig Tai (CIH Cymru) a'r CIH yn Lloegr,
- Shelter Cymru,
- Housing Potential, a
- Peter Williams o Gyngor y Benthycwyr Morgeisi (cynllunydd gwreiddiol y Cyrsiau Ôl- Raddedig ym Maes Tai yng Nghaerdydd).

Unwaith eto, defnyddiwyd dull strwythuredig ar gyfer casglu eu barn ar ddatblygiadau perthnasol yn y proffesiwn tai, sgiliau sy'n brin yn aml ymhlith gweithwyr proffesiynol ym maes tai a sut i ddarparu'n well y sgiliau angenrheidiol i weithwyr proffesiynol ym maes tai.

**Cyfnod 3**: Roedd trydydd cam yr adroddiad yn ymwneud ag asesiad manwl o gynllun ysgoloriaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'r rhan hon o'r astudiaeth yn tynnu ar y dystiolaeth a gasglwyd wrth weithio ar gyfnodau 1 a 2 yn ogystal â dau grŵp ffocws o fyfyrwyr. Roedd un grŵp yn cynnwys myfyrwyr presennol sy'n mynychu'r Cwrs MSc yng Nghaerdydd, a'r llall yn cynnwys cyn-fyfyrwyr o'r cwrs hwn. Roedd Cyfnod 3 hefyd yn cynnwys cyfweliadau manwl a gohebiaeth gyda Bob Smith, Uwch Ddarlithydd mewn Tai a Chyfarwyddwr y Ganolfan Rheoli a Datblygu Tai fel yr oedd ym Mhrifysgol Caerdydd. O ystyried ei chyfraniad ariannol, gofynnodd Llywodraeth y Cynulliad am y rhan hon o'r astudiaeth yn benodol. Mae'n dilyn felly bod yr ymchwil yn canolbwyntio'n fanylach ar y cwrs hwn nag ar rai eraill yng Nghymru. Dylid nodi hefyd nad yw sefydliadau eraill yng Nghymru wedi cael eu harchwilio mor

drylwyr â Chaerdydd wrth lunio'r adroddiad hwn.

**Cyfnod 4**: Roedd y pedwerydd cyfnod yn cynnwys asesiad penodol ar y cyfleoedd a'r dewisiadau ar gyfer gweithredu'n bositif i alluogi myfyrwyr a gweithwyr proffesiynol BME i ddilyn cyrsiau addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai. Roedd y rhan hon o'r astudiaeth yn cynnwys galw grŵp ffocws gan yr Athro Richard Tomlins o Brifysgol De Montfort. Roedd hefyd yn tynnu ar ymateb i gwestiynau penodol yng nghyfnod 1 yr astudiaeth yn ogystal ag adolygiad desg o bolisïau, mentrau ac ymchwil yn y DU a Chymru.

**Cyfnod 5**: Yn y cyfnod olaf defnyddiwyd yr wybodaeth o gyfnodau 1 i 4 i lunio themâu cyffredinol a nodi dewisiadau o ran polisi. Yn benodol mae'r adroddiad polisi yn:

- Tanlinellu anghenion addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai nad ydynt yn cael eu digoni;
- Nodi dewis y landlordiaid o ran addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai; ac
- Yn cyflwyno dewisiadau ar gyfer dosbarthu arian Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai.

## Strwythur yr adroddiad hwn

Mae gweddill yr adroddiad yn cyflwyno casgliadau'r ymchwil fel a ganlyn:

**Adran 2** yn cyflwyno canlyniadau'r arolwg trwy'r post a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth.

**Adran 3** yn adolygu'r ddarpariaeth gyfredol yng Nghymru a, pan fydd hynny'n berthnasol, yng ngweddill y DU.

**Adran 4** yn adrodd ar gasgliadau cyfres o gyfweliadau â budd-ddeiliaid.

**Adran 5** yn darparu adolygiad manwl o'r cwrs MSc/DipOR mewn Tai yng Nghaerdydd.

**Adran 6** yn edrych ar y pwnc penodol o addysg a hyfforddiant ym maes tai i grwpiau BME.

**Adran 7** yn archwilio dewisiadau o ran polisi.

# 2 Canlyniadau'r Arolwg Trwy'r Post

### Arolwg trwy'r post

Er mwyn cael barn mor gynhwysfawr â phosibl gan landlordiaid cymdeithasol, anfonwyd holiadur trwy'r post i bob Adran Tai Awdurdod Lleol a'r prif Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yng Nghymru yn gofyn am wybodaeth gefndirol ar bob un ohonynt. Yn ogystal roedd cwestiynau yn yr holiadur a gynlluniwyd i ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr astudiaeth o ran y canlynol:

1. Gofynion landlordiaid cymdeithasol o ran addysg a hyfforddiant proffesiynol i'w staff;

2. Y graddau y mae cyrsiau cyfredol yng Nghymru yn ymdrin â'u hanghenion; a

3. Barn ar bwysigrwydd ymchwil a chyrsiau ôl-raddedig yng Nghymru.

Gofynnwyd cwestiynau hefyd am gyrsiau Ôl-Raddedig Prifysgol Caerdydd a parthed materion pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Cafwyd barn ychwanegol landlordiaid cymdeithasol yng nghyfnod 2 o'r astudiaeth trwy Banel Prif Swyddogion Tai Cymru Gyfan.

Anfonwyd yr holiadur i'r 121 unigolyn canlynol mewn 22 o awdurdodau lleol a 36 LCC:

- 21 Cyfarwyddwr Tai, Awdurdodau Lleol
- 22 Rheolydd Hyfforddiant, Awdurdodau Lleol
- 32 Cyfarwyddwr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC)
- 46 Rheolydd Hyfforddiant LCC

### Methodoleg

Lluniodd tîm prosiect ECOTEC holiadur drafft. Roedd y tîm yn cynnwys David Hucker, y cyn Brif Weithredwr Cymdeithas Dai, a'r Athro Richard Tomlins, arbenigwr ar cartrefu bobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig. Gwnaed newidiadau wedi ymgynghori â Llywodraeth y Cynulliad a chyfieithwyd y fersiwn terfynol i'r Gymraeg. Roedd 26 o gwestiynau yn yr holiadur.

### Ymateb

Derbyniwyd rhyw 36 ymateb, gyda 24 gan LCC a deuddeng gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn dangos cyfradd ymateb o 29.8%. Ond, o ystyried bod yr holiadur yn y rhan fwyaf o achosion wedi ei anfon at ddau unigolyn yn y corff dan sylw, a bod cais i'r derbynwyr beidio anfon mwy nag un ffurflen ar gyfer pob corff, mae'r raddfa wirioneddol yn uwch, ar 62.1%. Seiliwyd y ffigwr hwn ar gyfanswm o 58 o gyrff a dderbyniodd yr holiadur. O'u rhannu yn ôl corff, mae hyn yn dangos cyfradd ymateb o 66.7% ar gyfer LCC a 54.5% ar gyfer awdurdodau lleol. Roedd y diffyg ymateb gan rai landlordiaid sydd wedi cofrestru nifer helaeth o fyfyrwyr ar gwrs MSc/DipOR Tai Prifysgol Caerdydd yn siomedig (e.e. CBS Torfaen, CS Caerdydd, CS Casnewydd).

Mae'r tabl isod yn rhestru'r rhai a ymatebodd i'r arolwg.

**Tabl 1 Ymatebwyr**

| Corff | Rôl |
|---|---|
| *Awdurdodau Lleol* | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Prif Swyddog Tai |
| Cyngor Sir Ddinbych | Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| Cyngor Sir y Fflint | Cyfarwyddwr y Gymuned a Thai |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Cydlynydd – Gwasanaethau Tai |
| Cyngor Sir Powys | Swyddog Polisi a Pherfformiad |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Rheolydd Tai Rhanbarthol |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | Rheolydd Gwasanaethau Tai |
| Dinas a Sir Abertawe | Prif Swyddog Gweinyddol/Ariannol |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Pennaeth Tai |
| Cyngor Sir Penfro | Rheolydd Gwasanaethau Cwsmeriaid |
| Cyngor Bro Morgannwg | Rheolydd Gweithredol |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Prif Gynorthwydd |
| *LCC* | |
| CT Aelwyd | Cyfarwyddwr |
| CT Bro Myrddin | Rheolydd Gwasanaethau Tai |
| CT Cadwyn | Gweinyddydd Personél a Hyfforddiant |
| CT Cymuned Caerdydd | Swyddog Personél a Hyfforddiant |
| CT Charter | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Tai |
| C.T. Cantref | Cyfarwyddwr Tai |
| C.T. Eryri | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol |
| Tai Cymoedd y Dwyrain | Prif Weithredwr |
| CT Morgannwg a Gwent | Prif Weithredwr |
| CT Merthyr Tudful | Prif Weithredwr |
| CT Canolbarth Cymru | Prif Weithredwr |
| Pennant Ltd | Rheolydd Adnoddau Dynol |
| CT Pontypridd a'r Cylch | Prif Weithredwr |
| CT Rhondda | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Tai |
| CT Abertawe | Rheolydd Gwasanaethau Corfforaethol |
| CT Taf | Pennaeth Gwasanaethau Tenantiaid/ Rheolydd Personél |
| CT United Welsh | Pennaeth Personél a Gweinyddu |
| CT Gogledd Cymru | Swyddog Personél |
| Grŵp Tai Gwalia | Cydlynydd Datblygu Staff |
| CT Sir Benfro | Cyfarwyddwr Tai |
| CT Cynon Taf | Dirprwy Brif Weithredwr |
| CT Hafan | Prif Weithredwr |
| CT Clwyd | Pennaeth Gweithrediadau |
| CT Gwerin | Cyfarwyddwr Gweithrediadau |

Mae'r tabl uchod yn dangos bod ychydig dan hanner yr ymatebwyr yn gyfarwyddwyr neu'n brif weithredwyr, tua chwarter yn gyfrifol am bersonél/adnoddau dynol, a'r chwarter arall o blith y rheolwyr canol. Fel y cyfryw, mae'r ymateb i'r arolwg yn cynrychioli trawstoriad defnyddiol iawn o'r rhai a dargedwyd.

Roedd dosbarthiad daearyddol yr ymatebion yn foddhaol gyda chynrychiolaeth dda o bob rhan o'r wlad.

### Casgliadau

Y prif bwyntiau a ddaeth i'r amlwg oedd:

### Cefndir

- Mae gan weithwyr proffesiynol tai sy'n gweithio yn y cyrff wnaeth ymateb ystod eang o gymwysterau, nid lefel broffesiynol CIH yn unig.
- Mae dwy ran o dair o'r cyrff wnaeth ymateb yn cyflogi llai na 100 o bobl.
- Nid oes gan bron eu hanner unrhyw staff BME.

### Gofynion hyfforddiant

- Nid yw'r ymatebwyr yn disgwyl gweld twf sylweddol yn y dyfodol yn y galw am weithwyr proffesiynol ym maes tai.
- Mae 80% o'r sampl yn cyflogi tri neu lai o weithwyr proffesiynol tai bob blwyddyn.
- Ychydig o brofiad sydd gan yr ymatebwyr o faterion tenantiaid BME.

### Barn ar ddarpariaeth hyfforddiant

- Ystyrir bod y ddarpariaeth o addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai yng Nghymru yn ddigonol.
- Ond, canfyddir bod angen ychwanegu at yr hyfforddiant proffesiynol mewn rheolaeth ariannol, cynllunio busnes a TG yn ychwanegol at yr hyn a ddarperir trwy gymwysterau proffesiynol ym maes tai.
- Roedd yr ymatebwyr o'r Gogledd yn bryderus fod gan weithwyr proffesiynol yn y De well mynediad at y ddarpariaeth addysg ym maes tai na'r rhai yn y Gogledd.

### Barn ar yr angen am ymchwil ac addysg ôl-raddedig yng Nghymru

- Cefnogir y galw am allu i wneud gwaith ymchwil yng Nghymru, er bod peth beirniadaeth ar ei berthnasedd, pa mor weladwy yw a'i ddiffyg effaith.
- Mae cefnogaeth gref i astudiaethau tai ar lefel Ôl-raddedig yng Nghymru.

Crynhoir canlyniadau eraill a mwy manwl isod:

### Darpariaeth o addysg a hyfforddiant

- Cytunai 39% o'r ymatebwyr bod y ddarpariaeth yng Nghymru yn ddigonol, o'i gymharu â 17% nad oedd yn cytuno. Nid oedd y 44% oedd yn weddill yn cytuno nac anghytuno.
- I Brifysgol Caerdydd (34%) ac UWIC(25%) yr anfonir y gyfran fwyaf o staff gan ymatebwyr i gael cymwysterau. Mae gan NEWI Wrecsam 15%. Dim ond un oedd yn hyfforddi'r tu allan i Gymru ac mae 15% o'r hyfforddiant staff gan yr ymatebwyr yn digwydd trwy ddysgu o bellter.
- O'r sylwadau, mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn hapus â'r ddarpariaeth leol, er bod peth pryder am y crynhoi yng Nghaerdydd.
- Mae cyrff yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru yn dueddol o'i chael yn anos i gael mynediad at hyfforddiant ac addysg ac felly maent yn dibynnu mwy ar ddewisiadau eraill, fel dysgu o bellter a hyfforddi yn Lloegr.

- Ni ddaeth unrhyw feirniadaeth sylweddol ar ansawdd cyrsiau i'r golwg.
- Roedd deg o'r 36 o ymatebwyr wedi recriwtio staff oddi ar gwrs MSc/DipOR Caerdydd, o'r rhain roedd cytundeb cyffredinol bod ansawdd rheolaeth tai yn eu cyrff wedi gwella o ganlyniad.

## Anghenion hyfforddiant ategol

- Aseswyd bod tri maes lle'r oedd angen hyfforddiant ategol: cynllunio busnes, rheolaeth ariannol a TG.
- Mae 94% o'r ymatebwyr yn darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) cynhwysfawr, trwy fentora, cyrsiau o fewn y sefydliad, rhyddhau am ddiwrnod, Buddsoddwyr mewn Pobl a'r defnydd o gynlluniau datblygu hyfforddiant y cytunwyd arnynt.

## Twf y sector

- Teimlai nifer sylweddol o'r ymatebwyr nad yw cymhwyster proffesiynol ym maes tai yn berthnasol iawn i recriwtio.
- Wrth gwrs mae lefelau recriwtio yn amrywio gyda maint y sefydliad, ond yn gyffredinol mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau (80% o'r sampl) yn recriwtio tri neu lai o weithwyr tai proffesiynol y flwyddyn.
- Mae mwy o'r ymatebwyr yn meddwl fod y nifer o raddedigion tai sydd ar gael yn annigonol na'r nifer nad ydynt yn meddwl hynny (47% o'i gymharu â 19%).
- Y nifer o fyfyrwyr a noddwyd gan yr ymatebwyr ar adeg yr arolwg oedd 120. Mae'r rhain yn bennaf (81%) yn cael eu noddi i ddilyn cwrs ôl-raddedig, israddedig a HNC/HND.
- Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (64%) yn meddwl na fydd y nifer o fyfyrwyr y maent yn eu noddi yn newid, gydag ychydig mwy yn meddwl y bydd hyn yn cynyddu yn hytrach na gostwng (19% o'i gymharu â 17%). Roedd y rhesymau a roddwyd am hyn yn cynnwys costau a chyllid prin, diffyg galw, a diffyg amser i ryddhau staff.
- Mae cyrff tai yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru ac mewn ardaloedd gwledig yn cael mwy o anhawster wrth recriwtio gweithwyr tai proffesiynol na'r rhai yn y De.

## Y cyd-destun Cymreig

- Mae cefnogaeth gref ar gyfer cynnal gallu yng Nghymru ar gyfer ymchwil (80%) ac addysg ôl-raddedig (86%).
- Ychydig iawn o symudiad mewn gweithwyr tai proffesiynol sydd yng Nghymru. Dengys yr wybodaeth a ddarparwyd ynglŷn â ble yr oedd unigolion sy'n gadael yn mynd bod 69% o'r symudwyr yn aros yn yr un swydd yng Nghymru ac 8% yn mynd i swyddi tai mewn rhannau eraill o'r DU.
- Dadleuodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr yn gryf dros yr angen am gynnwys penodol Gymreig yn y cyrsiau, ar sail y gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr o ran cyd-destun polisi a'r problemau sy'n codi.

## Materion ynglŷn â grwpiau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig

- Mae'r nifer o staff BME a gyflogir yn y cyrff wnaeth ymateb yn isel yn gyffredinol. Mae hyn yn ddisgwyliedig o ystyried mai 2.1% yw'r boblogaeth BME yng Nghymru
- Ychydig iawn o'r ymatebwyr a deimlai fod ganddynt ddigon o brofiad o weithwyr BME a thenantiaid BME i roi sylwadau.

# 3 Adolygiad o Gyrsiau yng Nghymru a Chyrsiau Ôl-Raddedig yn y D.U.

## Cyflwyniad

Roedd ail gyfnod yr astudiaeth yn ymwneud â chasglu disgrifiad cynhwysfawr o'r holl gyrsiau addysg a hyfforddiant tai proffesiynol yng Nghymru yn ogystal â chymryd golwg ehangach ar gyrsiau ôl-raddedig yn y DU. Bwriad hyn oedd gosod y ddarpariaeth yng Nghymru mewn cyd-destun ehangach a chynnig modd o gyferbynnu argaeledd dewisiadau astudio gwahanol yng Nghymru a'r DU. Mae'r adran hon yn cychwyn â thrafodaeth ynglŷn ag a yw maes tai yn gyffredinol yn cael ei ystyried yn *Broffesiwn* gan ymarferwyr - mater allweddol o ran ystyriaethau polisi - ac mae'n mynd ymlaen i nodi'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael i weithwyr tai proffesiynol yng Nghymru. Mae'n mynd ymlaen wedyn i edrych ar gyrsiau ôl-raddedig yng ngweddill y DU, diben hyn yw cynorthwyo yn y gwaith o adolygu Cynllun Ysgoloriaeth Caerdydd.

Ychwanegwyd yr ymchwil ar ddesg hwn trwy gyfweliadau â sefydliadau addysgol sy'n rhedeg y cyrsiau yng Nghymru yn ogystal â chyrff eraill sydd â diddordeb mewn addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai yng Nghymru. Nodir y rhesymeg ar gyfer cynnal y cyfweliadau hyn, y cwestiynau a ofynnwyd a'r casgliadau yn Adran 4.

## Fframwaith proffesiynol

Un pwnc bythol bresennol ar gyfer yr astudiaeth hon oedd y drafodaeth am statws proffesiynol tai fel gyrfa a'i ddelwedd wael, gan arwain at ddiffyg diddordeb yn y maes gan bobl ifanc. Pan wneir cymariaethau gyda phroffesiynau fel gwaith cymdeithasol, iechyd yr amgylchedd a dysgu er enghraifft, mae llawer yn dod i'r casgliad, nad yw'n afresymol, nad yw tai "yn yr un gynghrair". Mae'r methiant hwn i broffesiynoli (hynny yw aelodaeth broffesiynol orfodol ar gyfer pob swyddog tai) ac i ymgymrud â CPD gorfodol yn peri gofid i rai tra bod eraill yn ystyried nad yw'n ymarferol na dymunol. Wrth gwrs, mae llawer yn y tir canol rhwng y ddau begwn hwn.

Adolygwyd rôl y Sefydliad Siartredig Tai (CIH) i sefydlu'r fframwaith proffesiynol ym maes tai. Disgrifir y CIH ar wefan y corff ei hun fel:

> *"…y corff proffesiynol ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes tai. Ein diben yw gwneud y mwyaf o'r cyfraniad y mae gweithwyr tai proffesiynol yn ei wneud at les cymunedau".*

Mae ystod eang o gymwysterau tai a all arwain at aelodaeth o'r CIH fel Ymarferwyr neu Aelod Corfforaethol. Y tri phrif linyn yw:

- Cyrraedd y Cymhwyster Proffesiynol CIH (PQ) – sy'n cynnwys cymhwyster academaidd priodol a'r elfen ymarferol "APEX".
- Tystysgrifau CIH mewn Tai.
- Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Tai.

Gall uwch weithwyr tai proffesiynol gyrraedd aelodaeth gorfforaethol lawn o'r CIH trwy'r llwybr cyflym Terfynol Uniongyrchol. Mae'r Radd aelodaeth Gysylltiol ar gael i hwyluso mynediad, trwy gyfweliad proffesiynol, i'r CIH i bobl sydd

wedi cymhwyso'n broffesiynol mewn maes arall.

Mae'r CIH yn achredu cyrsiau tai yn y DU hefyd. Mae'n nodwedd bositif yng Nghymru bod yr holl gyrsiau israddedig a'r cwrs ôl-raddedig ym Mhrifysgol Caerdydd wedi eu hachredu gan y CIH. Yng ngweddill y DU, mewn cyferbyniad, nid yw pob cwrs ôl-raddedig wedi ei achredu gan y CIH, (er enghraifft yr MBA Sector Tai ym Mhrifysgol Birmingham). Mae'r cwrs hwn yn cael ei gefnogi gan y Gorfforaeth Dai, ac fe'i datblygwyd o ganlyniad i astudiaeth oedd yn adolygu'r gweithgareddau datblygu rheolaeth oedd yn bodoli yn y sector ac fe brofwyd cynllun y rhaglen newydd arfaethedig ar y farchnad. Darganfu'r astudiaeth bod cydnabyddiaeth gynyddol i'r angen am sgiliau rheoli generig mewn sector lle mae sgiliau technegol a phroffesiynol wedi tueddu i gael mwy o bwysigrwydd ar lwybrau dyrchafu tuag at swyddi uwch reolwyr. Nododd y gwerth y mae'r sector yn ei roi ar ddatblygu hyfforddiant gydag achrediad allanol a datblygu sgiliau rheoli y gellir eu trosglwyddo. Nid yw'r CIH yn cael ei grybwyll yn llenyddiaeth y cwrs.

Mae'r CIH yn darparu ystod o wasanaethau i'r sector tai yn gyffredinol ac i'w haelodau'n benodol. Mae'n amlwg mai *raison d'etre* y sefydliad yw hyrwyddo a hwyluso proffesiynoli'r sector tai. Mae'n gweithio tuag at y nod trwy amrywiol ddulliau. Y rhai pwysicaf, ar gyfer dibenion yr astudiaeth hon, yw:

- Cynnig llwybr i'r rhai sy'n gweithio yn y sector tai i gael aelodaeth o'r CIH.
- Darparu cyfres o Dystysgrifau Tai CIH.
- Achredu cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig.
- Darparu gwasanaeth dysgu o bellter.
- Polisi a strategaeth, lobïo'r Llywodraeth er enghraifft.
- Darparu gwybodaeth (cylchgrawn, cynadleddau ac ati) a hyfforddiant.

Ond, mae nifer o nodweddion addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai y mae'n rhaid eu gosod i gyferbynnu â'r gwasanaethau hyn, na ellir gwadu eu bod yn ddefnyddiol:

- Yn anaml iawn y mae cyrff sy'n recriwtio gweithwyr proffesiynol ym maes tai yn nodi bod aelodaeth o'r CIH yn un o'r gofynion.
- Mae'r nifer sy'n cael aelodaeth yn isel o'i gymharu â phroffesiynau eraill.
- Tra bod yr holl gyrsiau tai yng Nghymru wedi eu hachredu gan y CIH, mae nifer sylweddol yng ngweddill y DU nad ydynt.
- Mae'n ymddangos felly nad oes cysylltiad cynhenid rhwng ansawdd a gwerth cyrsiau tai ag achrediad CIH.
- Mae llawer o weithwyr proffesiynol ym maes tai nad ydynt am ymgyrraedd at aelodaeth o'r CIH.
- Yn wir, ar gyfer nifer sylweddol o weithwyr proffesiynol ym maes tai (ee y rhai sy'n ymwneud â'r agweddau adeiladu), mae llwybr mwy deniadol tuag at gymhwyster proffesiynol trwy'r llwybr RICS.

### Cyrsiau yng Nghymru

Mae Cyrsiau Tai yng Nghymru yn cael eu cynnig ar lefel Israddedig gan UWIC a NEWI, ac ar lefel Ôl-raddedig gan Brifysgol Caerdydd. Mae dysgu o bellter ar gael gan Goleg Gwent. Mae cyrsiau dysgu o bellter eraill ar gael gan ddarparwyr o Loegr fel Canolfan Dysgu o Bellter y CIH a Choleg

Agored Unsain yn Llundain. Mae'r tablau isod yn rhoi rhagor o fanylion am y cyrsiau sydd ar gael.

**Cyrsiau israddedig**
Athrofa yw dau ddarparwr cyrsiau israddedig a darparu addysg o bellter y mae dau ddarparwr arall. Mae'r holl gyrsiau wedi eu dilysu gan y CIH. Y cyrsiau gradd a gynigir yw:

| | |
|---|---|
| **Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru Wrecsam (NEWI)** | |
| Tystysgrif Genedlaethol Uwch BTEC mewn Astudiaethau Tai (rh/a) | PQ Cyfnod 1 |
| BSc/BSc (Anrh) mewn Tai (rh/a) | I ychwanegu at Ddiploma |
| BSc (Anrh) mewn Tai (a/ll) | PQ Cyfnod 1 a 2 |
| **Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC)** | |
| Tystysgrif Genedlaethol Uwch BTEC mewn Astudiaethau Tai (rh/a) | PQ Cyfnod 1 |
| Diploma UWIC mewn Addysg Uwch mewn Astudiaethau Tai/ Astudiaethau Tai: Diploma Broffesiynol (rh/a) | PQ Cyfnod 2 |
| BSc/BSc (Anrh) Astudiaethau Tai (rh/a) | PQ Cyfnod 1 a 2 |
| BSc (Anrh) Astudiaethau Tai (a/ll) | PQ Cyfnod 1 a 2 |

Fel y gwelir o'r tablau uchod, mae'r ddau sefydliad yn cynnig yr un set o gyrsiau. Yr eithriad yw'r Diploma mewn Addysg Uwch sydd wedi ei ddirwyn i ben gan NEWI. Mae UWIC yn datblygu cwrs gradd newydd mewn Tai a Chefnogaeth, a ddylai fod ar gael o Fedi 2004. Bydd y cwrs newydd yn cynnig llawer iawn o hyblygrwydd fel bod yr ymarferwyr yn medru mynd i mewn ac allan o'r rhaglen i gyrraedd y lefel sy'n diwallu eu hanghenion orau. Bydd y graddau canlynol yn cael eu cynnig trwy ddewisiadau amser llawn a rhan amser:

- HNC Tai a Chefnogaeth
- Tystysgrif Addysg Uwch
- Diploma Addysg Uwch
- BSc a BSc (Anrh.) Tai a Chefnogaeth

Bydd llwybr cyflym i reolwyr ac uwch ymarferwyr a fydd yn caniatáu iddynt gwblhau'r Ddiploma mewn dwy flynedd, trwy astudio'n rhan amser.

O gymharu'r cyrsiau sydd ar gael gwelir llawer o debygrwydd ac ychydig iawn o wahaniaethau. Er enghraifft, mae'r cyrsiau BSc Tai yn NEWI ac UWIC yn cynnwys tair lefel ac mae'n ymddangos mai dim ond mân wahaniaethau sydd rhwng y pynciau a astudir. Er enghraifft, mae Lefel 1 yn NEWI yn cynnwys cyflwyniad cyffredinol, ac yna amrywiaeth fawr o bynciau ar Lefel 2, gan orffen gyda ffocws ar dri maes penodol yn Lefel 3 - polisi a strategaeth gyhoeddus, adnewyddu ac adfywio a rheoli prosiectau - a thraethawd hir yn y flwyddyn derfynol. Yn UWIC mae'r ddwy lefel gyntaf yn ymdrin ag ystod eang o bynciau, gyda dau brosiect yn ystod Lefel 2. Mae Lefel 3 yn cael ei gadw ar gyfer traethawd hir yn y flwyddyn olaf. Mae'r ffioedd yn debyg iawn ar tua £2,400 am gwrs llawn amser tair blynedd. Ond mae'r cyrsiau mewn adrannau gwahanol: mae cwrs NEWI yn Adran yr Amgylchedd Adeiledig ac un UWIC yn yr Ysgol Iechyd a Gwyddorau Cymdeithasol o Astudiaethau Rhyngbroffesiynol. Ar y cyfan nid yw hyn

yn ymddangos fel pe bai'n cael unrhyw effaith o ran cynnwys y cyrsiau a gynigir. Yr eithriad posibl yw bod modwl ar adeiladu'n cael ei gynnwys yng nghwrs NEWI a'r pwyslais ar adfywio ac adnewyddu a rheoli prosiect yn y flwyddyn olaf.

Yn yr un modd, nid yw cyrsiau HNC yn amrywio'n sylweddol o ran cynnwys.

### Cyrsiau Ôl-raddedig

Dim ond un cwrs tai ôl-raddedig sydd ar gael mewn unrhyw sefydliad yng Nghymru, fel a ganlyn:

| Prifysgol Cymru Caerdydd | |
|---|---|
| MSc/Diploma Ôl-raddedig mewn Tai (rh/a) | PQ Cyfnod 2. Cwrs 2 flynedd (gyda lleoliad gwaith) |
| MSc/Diploma Ôl-raddedig mewn Tai (a/ll) | PQ Cyfnod 2. Cwrs 2 flynedd (gyda lleoliad gwaith) |
| MSc/Diploma Ôl-raddedig mewn Tai (a/ll) | PQ Cyfnod 2. Cwrs blwyddyn |

Cymharir cynnwys y cyrsiau BSc Astudiaethau Tai a gynigir gan NEWI ac UWIC â chynnwys y cwrs MSc yn y tabl isod.

### Tabl 2 Pynciau a drafodir gan addysg israddedig ac ôl-raddedig ym maes tai

| MSc Caerdydd | BSc NEWI | BSc UWIC |
|---|---|---|
| **Modylau craidd:**<br>- Tai a strategaeth polisi<br>- Rheoli Cyrff Tai<br>- Arferion Tai<br>- Dulliau Ymchwilio ac Arolygu<br><br>**Dewisiadau arbenigol**:<br>- Rheoli Tai Sector Cyhoeddus<br>- Amrywiaeth a Chydraddoldeb<br>- Ymchwil a Pholisi<br>- Cynllunio a Datblygu Tai<br>- Tai ac Adfywio Trefol | Lefel 1 - Cyflwyniad cyffredinol gydag Economeg, Gwleidyddiaeth, Tai, Adeiladu, y Gyfraith a Thechnoleg Gwybodaeth.<br><br>Lefel 2 - Tlodi ac Allgauedd Cymdeithasol, Cyfleoedd Cyfartal, Cyfranogiad Cymunedol/Tenantiaid, Datblygu Tai, Rheoli Tai, Cyfraith Tai ac Ymchwil Tai. Bydd cyfleoedd hefyd i astudio Systemau Gwybodaeth Daearyddol a Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur.<br><br>Lefel 3 - Tri maes allweddol: Polisi Cyhoeddus a Gweithio Strategol, Adnewyddu ac Adfywio a Rheoli Prosiect. Yn ychwanegol byddwch yn medru dilyn diddordebau unigol trwy ystod o fodylau a thrwy lunio traethawd hir. | Lefel 1 - Polisi tai cymdeithasol, Gwasanaethau tai a'r gyfraith, Economeg y farchnad dai, Adnoddau ar gyfer tai Prydain, Datblygu a chynllunio, Cyrff Tai, Sgiliau Ymchwil, Sgiliau Proffesiynol, Sialensiau i arferion tai.<br><br>Lefel 2 - Rheolaeth tai, Cyllid tai, Datblygu a dylunio tai, Cyfraith tai, Sgiliau ymchwil, Astudiaethau rhyngbroffesiynol, Adfywio.<br><br>Lefel 3 - Datblygu polisi, Strategaethau tai ar gyfer y dyfodol, Digartrefedd, Tai a Gofal cymunedol, Cyfranogiad tenantiaid ac adeiladu cymunedau, Rheoli prosiect, Astudiaethau cydraddoldeb, Traethawd hir yn y flwyddyn olaf. |

### Dysgu o bellter

Mae'r cyrsiau dysgu o bellter israddedig canlynol hefyd ar gael yng Nghymru:

| | |
|---|---|
| **Canolfan Dysgu o Bellter Sefydliad Siartredig Tai** | |
| Tystysgrif Genedlaethol Uwch BTEC mewn Astudiaethau Tai (rh/a) | PQ Cyfnod 1 |
| Diploma Proffesiynol CIH mewn Astudiaethau Tai (rh/a) | PQ Cyfnod 2 |
| **Coleg Agored UNSAIN, Llundain** | |
| Diploma Broffesiynol mewn Tai (rh/a) | PQ Cyfnod 2 |

Sylwer nad yw'r ganolfan dysgu o bellter ar gyfer Cymru (Coleg Gwent) yn cynnig y cyrsiau CIH uchod, ond yn hytrach mae'n canolbwyntio ar y cymhwyster Tystysgrif Genedlaethol mewn Tai'r CIH (gweler Adran 3.3.4). Rhaid i fyfyrwyr sy'n gweithio yng Nghymru ond sy'n dymuno astudio unrhyw un o'r cyrsiau uchod wneud hynny trwy ymlyniad wrth ganolfan tu allan i Gymru.

### Dysgu o Bellter y CIH

Anfonir deunyddiau'r cwrs a thasgau i gyfeiriad cartref y myfyrwyr. Cysylltir y myfyrwyr â Chanolfan Ranbarthol (e.e. Coleg Gwent) sy'n penodi tiwtor i gynnig cefnogaeth dros y ffôn a thrwy e-bost. Mae dau gyfnod derbyn bob blwyddyn, ym Mawrth a Medi. Cynhelir dyddiau cyflwyno yn ystod Ebrill a Hydref. Gwahoddir myfyrwyr newydd i fynychu diwrnod cyflwyno, a redir gan y ganolfan ranbarthol. Mae mynychu'r dyddiau cyflwyno yn rhan orfodol o'r cwrs.

Gellir cwblhau'r cwrs Tystysgrif Genedlaethol ac Uwch a'r Cwrs Trosglwyddo Graddedigion mewn 12 mis. Mae'r cyrsiau HNC a Diploma Proffesiynol yn gyrsiau dwy flynedd. Mae'r CIH yn amcangyfrif bod rhaid i fyfyrwyr dreulio tua 10 awr yr wythnos am tua 30 wythnos ar y cwrs. Rhaid i'r myfyrwyr hynny nad ydynt yn gweithio ym maes tai drefnu lleoliad gyda chorff tai.

Dengys data a ddarparwyd gan y CIH bod rhyw 50 o aelodau CIH a gofrestrwyd gyda'r Gangen Gymreig yn astudio trwy gyrsiau dysgu o bellter y CIH ar hyn o bryd, gyda 24 wedi eu cysylltu â'r ganolfan ranbarthol i Gymru yng Ngholeg Gwent a'r gweddill trwy:

- Canolfan Astudiaethau Cartrefi Cysgodol (6)
- Coleg Cornwall (2)
- Coleg Salford (2)
- Coleg Gogledd Ddwyrain Llundain (11)
- Prifysgol De Montfort (5)

Y cyrsiau dysgu o bellter CIH mwyaf poblogaidd a redir trwy Goleg Gwent yw'r Tystysgrifau Cenedlaethol mewn Tai â Chefnogaeth (46% o'r myfyrwyr) a Rheolaeth a Chynnal a Chadw Tai (33%). Nid yw'r ganolfan Gymreig yn cynnig yr ystod lawn o gyrsiau dysgu o bellter, dim ond Tystysgrif Tai Lefel 3 (y Tystysgrifau Cenedlaethol Tai fel yr oeddynt gynt - gweler Adran 3.4.1). Sy'n esbonio'r niferoedd sy'n gysylltiedig â chanolfannau y tu allan i Gymru. Mae'r rhai sy'n astudio tu allan i Gymru yn dilyn y cyrsiau HNC, Trosglwyddo Gradd a Diploma Proffesiynol.

### Coleg Agored UNSAIN

Mae Coleg Agored UNSAIN yn goleg dysgu o bellter wedi ei achredu, sy'n golygu bod yr holl ddeunyddiau cwrs, y

dysgu a'r gwasanaethau cynghori myfyrwyr yn cael eu hasesu'n annibynnol gan y Cyngor Ansawdd Dysgu Agored ac o Bellter i sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau uchaf o ran darpariaeth addysgol. Mae'r Coleg hefyd yn aelod o NIACE (y Corff Cenedlaethol dros Addysg Oedolion) ac EADL (y Gymdeithas Ewropeaidd dros Ddysgu o Bellter). Mae UNSAIN yn darparu ei gyrsiau ei hun, ond hefyd mae'n cynnig cyrsiau gan ddarparwyr o'r tu allan, ar ostyngiad i aelodau UNSAIN.

Darperir cyrsiau Coleg Agored UNSAIN trwy nifer o systemau dysgu agored, o bellter a hyblyg. Fe'i cynlluniwyd i fod mor 'agored' â phosibl o ran:

- Hygyrchedd;
- Pan fydd hynny'n bosibl, mae cymwysterau mynediad wedi eu dileu;
- Dulliau agored o ddysgu (er enghraifft, nid oes raid i fyfyrwyr gael asesiad ar eu gwaith na chymryd arholiad os nad ydynt yn dymuno hynny);
- Achrediad;
- Nid oes dyddiadau cau penodol ar gyfer derbyn myfyrwyr.

## Hyfforddiant galwedigaethol a thechnegol

Mae **Tystysgrif Lefel 2 CIH** (a elwid gynt yn Dystysgrif Sylfaenol mewn Tai) yn gymhwyster rhagarweiniol ar gyfer y rhai sy'n newydd i faes tai, y gellir ei gyflawni trwy gyfnod byr o astudio. Fel dyfarniad Lefel 2, mae'r dystysgrif hon yn cyfateb i TGAU neu Raddau Cyffredin yr Alban. Mae'n addas i unrhyw un sy'n dymuno astudio gweithgareddau tai, er enghraifft tenantiaid a gwirfoddolwyr eraill, hyfforddeion ar raglenni a ariennir gan y Llywodraeth neu weithwyr newydd. Fe all y CIH fedru achredu rhaglen gyflwyno corff fel y gellir ennill y cymhwyster yn y gweithle.

Mae **Tystysgrif Lefel 3 y CIH** mewn Tai (a elwid gynt yn Dystysgrif Genedlaethol mewn Tai) yn gymhwyster i unrhyw un sy'n weithredol ym maes tai, boed yn weithiwr cyflogedig, yn denant neu'n wirfoddolwr. O ennill y Dystysgrif Lefel 3 CIH mae gan y deiliad hawl i Aelodaeth Ymarferwr o'r CIH ac i ddefnyddio'r llythrennau Tyst. CIH ar ôl ei h/enw.

Gellir cwblhau'r Dystysgrif CIH Lefel 3 mewn blwyddyn, mewn coleg lleol fel arfer neu trwy ddysgu o bellter. Ond, fe all y CIH achredu rhaglen hyfforddi fewnol sefydliad fel y gellir ennill y cymhwyster yn y gweithle. Fel dyfarniad Lefel 3, mae'r dystysgrif hon yn cyfateb i Lefel A neu safon Uwch/Uwch Eto'r Alban. Er mwyn ennill y dystysgrif, mae'r holl fyfyrwyr yn astudio chwe Uned Graidd a chwe Uned Llwybr o un o'r rhaglenni canlynol.

- Unedau Craidd
- Tai â Chefnogaeth
- Cyfranogiad Tenantiaid
- Rheoli a Chynnal a Chadw Tai
- Cymorth a Chyngor Tai
- Budd-daliadau
- Rheoli Safle Teithwyr
- Cymunedau Cynaliadwy
- Gwasanaethau Gofalwyr a Concierge
- Gweithredwyr Canolfannau Galwadau a Rheoli

O fewn **Diploma Lefel 4 CIH mewn Tai** mae tair Tystysgrif Lefel 4 gyda llwybrau arbenigol mewn Tai Cysgodol â Thai â Chefnogaeth, Rheoli Llety Myfyrwyr, a Thai. Gall myfyrwyr symud ymlaen i'r ail

flwyddyn o astudio i gyrraedd Diploma Lefel 4, sy'n cyfateb i'r HNC mewn Tai.

Mae gan y CIH Dystysgrif Lefel 4 hefyd mewn Rheolaeth a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer y rhai sy'n Aelodau o'r Bwrdd.

Mae'r cyrsiau Tystysgrif CIH canlynol ar gael mewn sefydliadau Cymreig (y ddau yn ardal Caerdydd, heb ddim yng Ngogledd na Chanolbarth Cymru):

*Coleg y Barri*
Tystysgrif Lefel 2

Tystysgrif Genedlaethol Lefel 3 mewn Tai (Tai â Chefnogaeth)

Tystysgrif Lefel 4 mewn Tai a Reolir, Tai â Chefnogaeth a Thai Cysgodol

*Coleg Technegol Pontypridd*
Tystysgrif Lefel 2

Tystysgrif Genedlaethol Lefel 3 mewn Tai (Rheolaeth a Chynnal a Chadw)

Mae'r cymhwyster **NVQ/SVQ** ar gyfer y Sector Tai yn cynnig ystod eang o unedau dewisol. Mae'r NVQ/SVQ mewn Tai Anghenion Arbennig oedd yn bodoli cynt wedi ei ymgorffori ynddo. Mae'r rhain yn gymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol ar sail safonau cymhwysedd yn y gweithle. Mewn Tai, cânt eu cynnig ar Lefelau 2 , 3 a 4. Cydnabyddir Lefel 4 mewn Tai gan y CIH fel cwrs sy'n bodloni gofynion cyfnod cyntaf ei Gymhwyster Proffesiynol.

Ym maes Tai, y corff sy'n dyfarnu yw'r City and Guilds. Ar hyn o bryd dim ond dwy ganolfan sydd wedi eu hachredu gan y City and Guilds i ddarparu'r tystysgrifau NVQ ym maes tai yng Nghymru, fel a ganlyn:

- CBS Pen-y-bont ar Ogwr (dim gweithgaredd hyd yn hyn, er mai'n gymharol ddiweddar y'i sefydlwyd a disgwylir iddo gychwyn yn fuan)
- Consortiwm Gofal Gwent (darparwr hyfforddiant sector preifat)

Mae'n ymddangos bod y gweithgaredd yng Nghymru o ran y cymwysterau hyn ar lefel isel iawn.

## Cyrsiau tu allan i Gymru

### Cyflwyniad

Fel y disgrifiwyd yn yr adran flaenorol, y cwrs MSc/DipOR ym Mhrifysgol Caerdydd yw'r unig gwrs gradd ôl-raddedig sy'n cael ei gynnig gan sefydliad yng Nghymru. Mae Adran 3.3 wedi archwilio'r cyrsiau israddedig yn UWIC a NEWI, yng Nghymru hefyd. Mae'r adran hon yn archwilio'r radd ôl-raddedig yng Nghaerdydd yng nghyd-destun cyrsiau ôl-raddedig eraill ym maes tai sy'n cael eu cynnig mewn rhannau eraill o'r DU fel ein bod yn medru:

- Cymharu nodweddion y cyrsiau (cynnwys, meini prawf mynediad, cydbwysedd yr ymarferol/damcaniaethol er enghraifft);
- Archwilio rôl gymharol y CIH wrth achredu cyrsiau;
- Cymharu ansawdd, pan fydd hynny'n bosibl;
- Archwilio perthynas gyda gweithgareddau ymchwil a chyrsiau israddedig;
- Cymharu ffioedd a threfniadau cyllido.

### Cyrsiau ôl-raddedig ym maes tai sydd ar gael

Mae'r tabl isod yn rhestru'r holl gyrsiau ôl-raddedig ym maes tai sydd ar gael yn y

DU. Mae tua 32 o gyrsiau (16 wedi eu hachredu gan y CIH), yn cael eu cynnig gan 20 sefydliad.

### Tabl 3 Crynodeb o gyrsiau ôl-raddedig ym maes tai yn y DU

| Sefydliad | Cwrs | Achrediad CIH |
|---|---|---|
| Prifysgol De Montfort | MSc Tai | √ |
| Prifysgol Glasgow | MPhil Astudiaethau Tai | √ |
| Prifysgol Westminster | MA Cyfraith a Pholisi Tai | |
| | MA Arferion Tai | √ |
| Prifysgol Canol Lloegr | MA Tai | √ |
| | MA Astudiaethau Tai | |
| Prifysgol Polytechnig Anglia | MSc Tai | √ |
| Prifysgol Birmingham | MSc Ymchwil a Pholisi Tai | |
| | MBA Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer y Sector Tai | |
| Prifysgol Caerdydd | MSc Tai | √ |
| Prifysgol Greenwich | MSc Tai | |
| Prifysgol Heriot-Watt | MSc Cynllunio a Thai Ewropeaidd | √ |
| | MSc Tai | |
| | MSc Datblygiad Tai Rhyngwladol | |
| John Moores Lerpwl | Diploma OR/MSc Astudiaethau Tai | |
| Prifysgol Metropolitan Leeds | MA Astudiaethau Tai Proffesiynol | √ |
| Prifysgol Lincoln | MA Blaengaredd Tai | |
| Ysgol Economeg Llundain | MSc Tai | √ |
| | MSc Tai (Rhyngwladol) | |
| Prifysgol Middlesex | MSc Tai | √ |
| | MSc Trefnu Tai Staff o Safon Uchel | |
| Prifysgol Northumbria | MA Polisi a Rheoli Tai | √ |
| | MA Adfywio Trefol a Thai | |
| Prifysgol Salford | MSc Tai (Ymarfer) | √ |
| Prifysgol Sheffield Hallam | MA Polisi ac Ymarfer Tai | √ |
| | MA Polisi ac Ymarfer Tai (trwy draethawd) | |
| Prifysgol South Bank | MA Astudiaethau Tai | √ |
| Prifysgol Stirling | MSc Astudiaethau Tai | √ |
| Coleg Prifysgol Llundain | MSc Tai | |
| | MSc Astudiaethau Tai Rhyngwladol | |
| Prifysgol Ulster | MSc Tai | √ |
| Prifysgol Gorllewin Lloegr | MA Tai ac Adnewyddu Cymuned | |
| | MA Astudiaethau Tai | √ |

### Cymharu cyrsiau ôl-raddedig

Mae'r tabl isod yn crynhoi prif nodweddion pum cwrs ôl-raddedig y gellid ystyried eu bod yn cyflawni'r un gwaith â chwrs MSc Caerdydd. Mae nifer o'r cyrsiau o'r tu allan i Gymru wedi eu dewis oherwydd eu hagosrwydd at Ogledd a Chanolbarth Cymru.

## Tabl 4 Crynodeb gryno o gyrsiau tai ôl-raddedig dethol

| | Prifysgol Caerdydd | Prifysgol Salford | John Moores Lerpwl | Prifysgol Birmingham |
|---|---|---|---|---|
| **Gradd** | Diploma OR/ MSc Tai | Diploma OR/MSc Tai (Ymarfer) | Diploma OR/ MSc Astudiaethau Tai | MSc Ymchwil a Pholisi Tai |
| **Lleoliad** | 12 mis gyda'r cwrs dwy flynedd amser llawn | Lleoliad blwyddyn cyflogedig gyda chyflogwr ym Mlwyddyn 2 o'r cwrs amser llawn | Dim | Dim |
| **Gofynion mynediad** | Gradd neu ddwy flynedd o brofiad tai (i'r rhai dros 25 oed) | Cwrs Sylfaenol CIH neu gyfatebol, neu radd gyntaf mewn disgyblaeth gysylltiedig, neu Achrediad Addysg Blaenorol (APL)/ Dysgu Trwy Brofiad Blaenorol (APEL) | Gradd neu gyfatebol | Gradd Anrhydedd Dda neu gyfatebol. Gall drosglwyddo o gwrs Diploma i MSc. |
| **Ffioedd** | £2,870 ALl £1,435 RhA (2002/03) | £2,870 ALl £1,200 RhA | Tua £2,800 | Amser llawn £2,870. |
| **Trefniadau cyllido** | Ysgoloriaeth Llywodraeth y Cynulliad yn talu 50% o'r costau, y gweddill fel arfer yn cael ei dalu gan sefydliad tai sy'n noddi (ar gyfer astudio amser llawn yn unig) | Tri lleoliad a noddir gan gyflogwr ar gael a'r llwybr hwn yn cael ei ddatblygu. | Hunan Gyllido | Hunan Gyllido |
| **Adran** | Y Ganolfan Gynllunio Dinas a Rhanbarthol | Cyfadran Gwyddoniaeth, Peirianneg a'r Amgylchedd | Ysgol yr Amgylchedd Adeiledig | Canolfan Astudiaethau Trefol a Rhanbarthol |
| **Dilyswyd gan y CIH** | Do | Yes | Na | Na |

## Table 4 Summary comparison of selected postgraduate housing courses Practice (continued)

| | Prifysgol Glasgow | Prifysgol Sheffield Hallam | UCE Brimingham | Prifysgol Gorllewin Lloegr (Bryste) |
|---|---|---|---|---|
| **Gradd** | Tystysgrif OR/Diploma/MPhil Astudiaethau Tai | Diploma OR/MA Polisi ac Ymarfer Tai | MA/Diploma Ôl-Raddedig Tai | MA/OR Tai ac adnewyddu cymuned |
| **Lleoliad** | Dim | Dim | Na | Na |
| **Gofynion mynediad** | Gradd prifysgol neu HNC, neu bum mlynedd o brofiad. Myfyrwyr diploma HNC neu gwrs Sylfaenol CIH, neu NVQ/SVQ Lefel 4 | Gradd gyntaf gysylltiedig neu gymhwyster proffesiynol perthnasol. Ymrwymiad i yrfa mewn tai yn bwysig | Gradd gyntaf gysylltiedig. Profiad ym maes tai yn ddymunol. | Gradd gyntaf gysylltiedig. Profiad ym maes tai yn ddymunol. |
| **Ffioedd** | Amser llawn £2,810 £1,535 RhA | Amser llawn £2,360 £1,180 RhA | £2,940 ALl £1,200 RhA | £3,960 ALl £1,320 RhA |
| **Trefniadau cyllido** | Hunan Gyllido | Hunan Gyllido | Hunan gyllido | Hunan gyllido |
| **Adran** | Adran Astudiaethau Trefol | Ysgol yr Amgylchedd a Datblygu | Cyfadran yr Amgylchedd Adeiledig | Cyfadran yr Amgylchedd Adeiledig |
| **Dilyswyd gan y CIH** | Do | Na | Do | Do |

Gellir gweld oddi wrth y gymhariaeth uchod bod y cyrsiau yn ymddangos fel petaent yn syrthio i ddau gategori - y rhai â lleoliadau a'r rhai heb ddim. Mae'r ffioedd yn gyffredinol yn debyg, fel y mae'r meini prawf mynediad. Gall mater lleoliadau fod yn gysylltiedig â'r canfyddiad ar ran rhai o'r sefydliadau bod cwrs MSc/MA yn gymhwyster "academaidd", heb yr angen i gynnwys elfen ymarferol estynedig yn y cwrs. Y rheswm dros gynnwys lleoliad gwaith, fel yng nghwrs dwy flynedd amser llawn Caerdydd, yw ei fod yn cynnig y cyfle i weithredu'r hyn a ddysgwyd ac mae'n cynnig cydbwysedd rhwng y damcaniaethol a'r ymarferol. O'r tri dewis a gynigir gan Gaerdydd, y cwrs blwyddyn amser llawn (heb leoliad) sydd debycaf i'r cyrsiau mewn mannau eraill.

Mae'n amlwg hefyd bod y trefniadau ariannu tu allan i Gymru gryn lawer yn fwy ansicr wedi i'r ysgoloriaethau ESRC ar gyfer cyrsiau tai ôl-raddedig gael eu tynnu yn ôl (er bod ysgoloriaethau ar gael i gefnogi astudiaethau amser llawn yn Heriot Watt a Stirling yn yr Alban). Diddorol oedd sylwi y gall Prifysgol Salford fod yn dangos y

ffordd ymlaen trwy ei phwyslais ar ragor o leoedd wedi eu cyllido gan gyflogwyr. Dylid nodi hefyd ym maes Cynllunio, bod Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn ddiweddar wedi penderfynu ail gyflwyno ysgoloriaethau yng ngoleuni'r anawsterau a welwyd wrth geisio denu gweithwyr proffesiynol.

### Ansawdd y cyrsiau

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yn asesu ansawdd y dysgu a'r addysgu mewn sefydliadau Addysg Uwch yn y DU. Ers ei sefydlu ym 1997, mae'r QAA yn gorff annibynnol a gyllidir gan gyfraniadau gan brifysgolion a cholegau Addysg Uwch a thrwy gontractau gyda'r prif gyrff cyllido addysg uwch.

Ar gyfer sefydliadau Cymru, Prifysgol Caerdydd, UWIC a NEWI, cynhaliwyd arolygon sefydliadol ar gyfer Caerdydd ac UWIC yn Hydref 2002. Nid yw'n ymddangos bod un wedi ei chynnal ar gyfer NEWI ac ni fu Adolygiad Pynciol ar Dai. Nid yw'r Arolygon Sefydliadol yn cynnwys unrhyw wybodaeth benodol ar gyrsiau penodol.

Mae adolygiadau o gyrsiau tai yn y sefydliadau canlynol ar gael: Prifysgol De Montfort, Athrofa Southampton, Prifysgol Salford, Prifysgol John Moores Lerpwl, Prifysgol Northumbria, Prifysgol Ulster a Phrifysgol Polytechnig Anglia. Mae'r adolygiadau hyn yn cwmpasu tai pan fydd yn disgyn dan gylch gorchwyl Adrannau Cynllunio Gwlad a Thref.

Cynhaliwyd Asesiadau Ansawdd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) ym 1993/94 a 1996/97, gyda'r cyfrifoldeb yn trosglwyddo i QAA ym 1997/98. Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn yr adroddiadau HEFCW hyn yn gyfyngedig ac mae ei oedran yn golygu nad yw o fawr o ddiddordeb i'r astudiaeth hon. Felly nid oes ond ychydig neu ddim gwybodaeth ar gael o ran asesiadau ansawdd ar addysgu cyrsiau tai yng Nghymru.

### Ansawdd yr Ymchwil

Mae'r Ymarfer Asesu Ymchwil (RAE) yn cynnig asesiad o ansawdd yr ymchwil a wnaed gan sefydliadau addysg uwch a phellach yn y DU. Mae'r RAE yn cynhyrchu graddau ar gyfer pob sefydliad, sydd wedyn yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar ddyrannu dros £1 biliwn o gyllid ymchwil y flwyddyn, gyda'r sefydliadau hynny sy'n cynhyrchu ymchwil ar lefel uwch yn derbyn grantiau mwy.

Mae'r RAE yn cael ei gwblhau'n achlysurol, a chynhaliwyd yr asesiad diwethaf yn 2001. Mae pob ymchwil a asesir ar gyfer yr RAE yn cael ei ddyrannu i un o 68 'uned asesu' sy'n adlewyrchu'r pynciau'n fras ac sydd wedi eu dynodi trwy ymgynghori â'r sector addysg uwch. Gwahoddir pob sefydliad addysg uwch a phellach a gyllidir yn gyhoeddus i gyflwyno ymchwil ar gyfer yr asesiad, gyda phob un yn medru cyflwyno cymaint o unedau i'w hasesu ag y maent yn dymuno. Mae'r tabl isod yn nodi'r graddau ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n cynnig cyrsiau ôl-raddedig mewn tai a gyflwynodd ymchwil ar gyfer ei asesu dan y RAE.

### Tabl 5 Crynodeb o ganlyniadau RAE

| Sefydliad | Graddau 2001 | Cyfran o Staff Ymchwil Gweithredol a Ddewiswyd | Staff Ymchwil Gweithredol Categori A a A* (AALI) |
|---|---|---|---|
| Prifysgol Polytechnig Anglia* | 2 | B | 9.1 |
| Prifysgol Canol Lloegr, Birmingham* | 3b | E | 6.3 |
| Prifysgol Metropolitan Leeds* | 3a | B | 13.0 |
| Prifysgol John Moores Lerpwl | 3a | A** | 3.0 |
| Prifysgol Brookes Rhydychen* | 4 | C | 26.0 |
| Prifysgol Sheffield Hallam* | 4 | D | 14.3 |
| Prifysgol y South Bank* | 4 | D | 6.0 |
| Prifysgol Gorllewin Lloegr, Bryste* | 3a | B | 23.5 |
| Prifysgol Westminster* | 3a | D | 17.5 |
| Prifysgol Glasgow* | 5 | A | 21.5 |
| Prifysgol Heriot Watt* | 3a | B | 4.0 |
| **Prifysgol Caerdydd*** | **5*** | **A** | **33.2** |

*Nodiadau * Sefydliadau'n darparu cyrsiau Meistr wedi eu hachredu gan CIH. ** Mae Gradd A yn dynodi bod 95-100% o'r staff wedi eu cyflwyno*

*Ffynhonnell: RAE Results, 2001, Higher Education and Research Opportunities in the UK*

Mae'r radd ar gyfer Prifysgol Caerdydd, uchod, ar gyfer yr Adran Cynllunio Dinas a Rhanbarthol, y mae Tai yn rhan ohoni. Noder bod CPLAN yn nyfarniad Prifysgol Caerdydd wedi ei ddiweddaru i 6*. Mae hyn yn adlewyrchu dyfarnu'n raddfa ymchwil uchaf mewn Ymarferion Asesu Ymchwil olynol.

# 4 Barn a Safbwyntiau'r Budd-Ddeiliaid

### Rhesymeg a Methodoleg

Mae Adran 3 yn nodi manylion yr holl gyrsiau addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai yng Nghymru yn ogystal ag edrych yn ehangach ar gyrsiau ôl-raddedig yn y DU. Bwriad hyn oedd gosod y ddarpariaeth yng Nghymru mewn cyd-destun ehangach a chynnig modd o gyferbynnu argaeledd gwahanol ddewisiadau astudio yng Nghymru â'r DU.

Er mwyn ategu at hyn a chael barn sefydliadau addysgol tai yng Nghymru, rhoddwyd cyfweliad i gynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

- Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd: Jan Huyton a Sue Finch
- Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru, Wrecsam: Jane Wafer
- Prifysgol Caerdydd: Dr Bob Smith
- Coleg Gwent: Roger Powell

Dilynodd y cyfweliadau ddull wedi ei strwythuro, gyda'r nod o ddarganfod beth yw'r materion allweddol sy'n wynebu addysg ym maes tai yng Nghymru gan gynnwys: newidiadau strwythurol, sut y dylai'r sector fod yn ymateb i amgylchedd sy'n newid, recriwtio ar gyrsiau a chydbwysedd y ddarpariaeth addysg ym maes tai yng Nghymru.

Ymgynghorwyd â sefydliadau eraill perthnasol hefyd er mwyn cael safbwynt y rhai sydd â diddordeb uniongyrchol mewn addysg tai yng Nghymru. Y rhain oedd

- AWCHOP: Raymond Smith, Ysgrifennydd
- Shelter Cymru: Michelle Wales
- Housing Potential: Christina Heard
- CIH Cymru: Joy Kent a Keith Edwards
- CIH: David Butler (Prif Weithredwr) a Martin Winn (Cyfarwyddwr Addysg a Hyfforddiant)
- Peter Williams o Gyngor y Benthycwyr Morgeisi (cynllunydd gwreiddiol y Cyrsiau Ôl- Raddedig ym maes Tai yng Nghaerdydd).

Unwaith eto dilynwyd dull strwythuredig i gael eu barn ar ddatblygiadau perthnasol yn y proffesiwn tai, y sgiliau sy'n brin yn aml ymhlith gweithwyr proffesiynol ym maes tai a sut i ddarparu'r sgiliau angenrheidiol i weithwyr proffesiynol.

### Crynodeb o'r canlyniadau

Crynhoir y farn a gafwyd gan y darparwyr addysgol isod, ac yna ceir barn y cyrff eraill yr ymgynghorwyd â nhw:

### Darparwyr addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai

Mae gan yr amrywiol sefydliadau rolau gwahanol, ac nid yw hi'n syndod efallai fod ganddynt sawl  barn ar faterion penodol, nad yw'n syndod efallai.  Mae'r dadansoddiad isod yn nodi'n gyntaf y materion yr oedd y darparwyr addysg yn cytuno arnynt. Yna ceir trafodaeth ar y materion yr oedd eu barn yn amrywio arnynt.

Rhoddodd cynrychiolwyr y cyrff yma'r sylwadau allweddol canlynol yr oedd cytundeb bras arnynt:

Tra bod dysgu am 'frics a morter' yn rhan bwysig o'r maes llafur academaidd, mae'r addysgwyr proffesiynol yn ystyried bod addysg ym maes tai yn ei hanfod yn ymwneud ag anghenion pobl a chymunedau.

Mae unigolion yn dod i mewn i yrfaoedd ym maes tai o nifer o wahanol gefndiroedd ac felly mae eu hanghenion o ran hyfforddiant yn wahanol. Mae'r rhain yn amrywio yn ôl yr arbenigedd proffesiynol a'r profiad y maent eisoes wedi eu cael; eu cyrhaeddiad addysgol a'u gallu; y ffurf o astudio sydd fwyaf addas iddynt (amser llawn, rhan amser, dysgu o bellter ac ati); a'u huchelgais o ran gyrfa. O ganlyniad mae darparwyr addysg yn ystyried ei bod yn rheidrwydd arnynt i fod yn hyblyg wrth ddarparu cyrsiau er mwyn eu gwneud mor hygyrch â phosibl. Maent hefyd yn cynnal arolwg parhaus o ddatblygiadau ym maes tai er mwyn sicrhau bod y cyrsiau sy'n bodoli'n parhau i fod yn berthnasol, a phan fydd hynny'n addas, yn cyflwyno cyrsiau newydd - yn hyn o beth dyfynnodd UWIC y ffaith eu bod wedi cyflwyno eu cymhwyster newydd mewn tai â gofal.

Mae'r sector Tai'n gofyn am ystod eang o sgiliau - sgiliau hanfodol y gellir eu trosglwyddo (er enghraifft, gweithio gyda phobl hawdd eu niweidio, sgiliau cyfathrebu a gweithredu) a hefyd sgiliau strategol fel sgiliau polisi a rheoli. Mae darparwyr cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig yn gweld eu hunain fel rhai sy'n cwrdd â'r ystod hwn o anghenion. Maent yn tanlinellu'r gofyn i ymdrin â chynnwys ehangach ar y cyrsiau o ystyried y 'cymylu ffiniau' a fu rhwng tai a materion eraill cysylltiedig, fel adfywio, datblygu a thlodi.

Ac maent yn nodi pwysigrwydd darparu ar gyfer 'myfyrwyr nad ydynt yn rhai traddodiadol', fel y rhai o gefndir Du a Lleiafrifoedd Ethnig ac aelodau o fyrddau Cymdeithasau Tai, yn ogystal â swyddogion tai prif-ffrwd. Mae dewisiadau dysgu o bellter ar gael yng Nghymru, er bod llawer o'r myfyrwyr dysgu o bellter yn manteisio ar gyrsiau a redir o Loegr. Mae Shelter Cymru yn rhedeg ystod o gyrsiau undydd yn bennaf yn ymwneud â digartrefedd, budd-daliadau lles, hawliau dynol, cyfraith y teulu a sicrwydd daliadaeth.

Mae'r duedd i Awdurdodau Lleol ddod yn alluogwyr, ynghyd â meddwl ar linellau '*Y Cwsmer yn gyntaf*' a chyflwyno diwylliant beirniadu ar sail perfformiad, yn golygu bod eu hymagwedd yn ymdebygu mwy fwy i un y sector preifat tuag at anghenion cwsmeriaid a'u hanghenion. Mae pwyslais cynyddol hefyd ar *ansawdd* yr addysg a ddarperir.

Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol o bwysigrwydd gallu ymchwilio o ansawdd yng Nghymru, a nodwyd gradd ragorol Prifysgol Caerdydd o ran ymchwil. Roedd yn cael ei ystyried yn bwysig hefyd bod addysg a hyfforddiant ôl-raddedig ar gael *yng* Nghymru.

Roedd cytundeb cyffredinol bod gan *Faes Tai* ddelwedd allanol wael, sy'n arwain at ganfyddiad nad yw tai yn yrfa mor ddeniadol. Er mwyn ymdrin â hyn maent yn dadlau dros farchnata mwy effeithiol ar faes tai fel gyrfa gyda'r nod o ennyn diddordeb unigolion eraill sy'n uchel eu cymhelliad ac yn alluog, gyda golwg ar iddynt ddod yn swyddogion tai.

Mynegwyd pryder y gall cyfyngiadau ar adnoddau fygwth hyfywedd rhai cyrsiau. Nododd un darparwr eu bod yn profi galw na ellid ei ddiwallu oherwydd nad yw myfyrwyr bob amser yn medru sicrhau'r

gefnogaeth ariannol y mae arnynt ei hangen gan gyflogwyr o'r sector tai.

Roedd rhai o'r farn, er ei bod yn bwysig i addysg ar lefel ôl-raddedig fod ar gael yng Nghymru, mai dim ond rhan o'r angen oedd yn cael ei ddiwallu gan y cyrsiau presennol. Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig cyrsiau trosglwyddo ar gyfer gweithwyr proffesiynol o'r tu allan i faes tai. Nid yw felly'n cynnig dewisiadau astudio pellach i raddedigion ym maes tai nac i weithwyr proffesiynol ym maes tai sydd â nifer o flynyddoedd o brofiad ymarferol. Mae'r tebygrwydd yn y deilliannau dysgu rhwng astudiaethau israddedig ym maes tai ac ôl-raddedig ym maes tai yn golygu bod diffyg cyfle yng Nghymru i symud ymlaen i astudiaeth ôl-raddedig os bydd yr ymgeisydd wedi astudio tai ar lefel israddedig. Un o ganlyniadau hyn yw bod cystadleuaeth rhwng y ddwy lefel o gwrs am ymgeiswyr. Y ddadl yma, oherwydd bod trefniant ysgoloriaeth a pholisi derbyn hyblyg iawn ar ran y cyrsiau ôl-raddedig, yw bod yr ymgeiswyr yn cael eu denu i astudio ar y lefel uwch, a hynny'n ddealladwy, o ystyried ei fod yn gwrs byrrach ac yn arwain at radd â mwy o bwys iddi. Mewn rhai achosion gall fod yn fwy addas, er budd datblygiad personol, i gyfeirio ymgeiswyr i astudio ar lefel israddedig. Ail ganlyniad yw nad yw'r cynnwys ar y cyrsiau sy'n berthnasol i'r rhai sy'n anelu at y swyddi uchaf ar gael ar hyn o bryd. Byddai hyn yn cynnwys arweinyddiaeth, strategaeth busnes, a rheolaeth prosiect ac ariannol. Ar hyn o bryd felly mae graddedigion ym maes tai yng Nghymru a gweithwyr proffesiynol uwch ym maes tai sy'n dymuno dilyn cymhwyster ôl-raddedig yn dewis astudio am MBA.

Mae tîm tai Prifysgol Caerdydd yn ymwybodol o'r farn hon ac roeddynt yn awyddus i ateb y pwyntiau hyn. Maent yn pwysleisio bod cyrsiau Caerdydd yn sylfaenol wahanol i'r cyrsiau israddedig ac na ddylid eu cymharu ag unrhyw raglenni eraill yng Nghymru. Mae cwrs Caerdydd yn rhoi cymhwyster ar lefel uwch na chyrsiau israddedig, ac mae'n cael ei gwblhau dros gyfnod byrrach o amser. Mae ganddo rôl benodol - darparu hyfforddiant ôl-raddedig i'r rhai sy'n dod i mewn i faes tai am y tro cyntaf ac felly mae'n amhriodol ei feirniadu am beidio ymdrin â holl anghenion posibl myfyrwyr. Nid yw'r cwrs yn bwriadu cynnig cyfle i symud ymlaen i raddedigion ym maes tai ac mae lladmeryddion y farn hon yn dadlau bod cyrsiau eraill tu allan i faes tai yn darparu ar gyfer yr angen hwn - cyrsiau fel MBA Caerdydd. Maent yn cynnig polisi derbyn goleuedig a hyblyg oherwydd nad ydynt yn gofyn am radd gyntaf, er hynny maent yn ofalus i beidio derbyn unrhyw un os nad yw'r gallu ganddynt i gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus. Yn y ffordd hon mae croestoriad eang o fyfyrwyr wedi cael budd. Mae hyn yn ei dro yn beth da i'r proffesiwn. Mae'r cyfle i astudio ar lefel ôl-raddedig yng Nghymru wedi bod yn ddull effeithiol o ddenu rhai nad ydynt wedi arbenigo mewn tai; ac mae Sefydliad Siartredig Tai yn Lloegr yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu cynllun tebyg i'r un sy'n gweithredu yng Nghymru. Gwelant y cynllun ysgoloriaeth yng Nghymru fel model dda i'w dilyn.

Nodir nad oes ond un darparwr cwrs ôl-raddedig ym maes tai yng Nghymru - Prifysgol Caerdydd. Sefydlwyd y cwrs a redir gan Gaerdydd gyda chymorth cynllun ysgoloriaeth y Swyddfa Gymreig (Llywodraeth y Cynulliad erbyn hyn); ac mae parhad y gefnogaeth yn sylfaenol i'w hyfywedd. Mae perygl, petai'r ysgoloriaeth yn troi oddi wrth ei ffocws cyfredol, y gallai Cymru golli'r cyfleuster

pwysig a llwyddiannus hwn. Byddai'r cwrs rhan-amser hefyd dan fygythiad, sy'n dibynnu ar y cwrs amser llawn i gael y niferoedd angenrheidiol, a'r cyfraniad y mae'r tîm tai yn ei wneud at raddfa 6* yr Adran Gynllunio Dinas a Rhanbarthol. Mae Caerdydd hefyd yn nodi bod ysgoloriaethau ar gael i ymgeiswyr ble bynnag y maent yn byw yng Nghymru er eu bod yn derbyn ei bod yn haws i fyfyrwyr yn Ne Cymru gymryd y cyfle.

Mae'r Brifysgol yn ymwybodol, mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym, bod rhaid i'r cyrsiau gael eu hadolygu'n gyson, a'i bod yn addas gwneud addasiadau o dro i dro. Mae'n ymwybodol hefyd bod cyrsiau ôl-raddedig yn rhan o'r ddarpariaeth gyffredinol o addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai yng Nghymru. Yng sgil hyn, mae tîm tai Prifysgol Caerdydd yn cynnal deialog barhaus â'r diwydiant, sefydliadau addysgol eraill a chyrff tai proffesiynol allweddol. Cyfeirir at gyflwyno'r cwrs rhan-amser dwy flynedd, a lleoliadau gwaith hirach yn y cyd-destun hwn. Rhagwelir y bydd y newidiadau hyn yn cynyddu poblogrwydd y dewis rhan-amser ymhlith staff sy'n gweithio ym maes tai ar hyn o bryd.

### Cyrff eraill

Roedd y cyrff eraill a gyfwelwyd yn cynnwys AWCHOP, Shelter Cymru, Housing Potential, CIH Cymru a'r CIH yn Lloegr. Mae ganddynt oll rôl wahanol o ran tai ac felly mae eu pwyslais yn wahanol wrth ymateb i gwestiynau'r astudiaeth. Isod ceir ymdrech i bennu'r themâu:

Ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae tai yng Nghymru yn gynyddol yn cael ei wahaniaethu oddi wrth dai yn Lloegr. Gwelir bod gan Gymru elfennau 'unigryw' ac ystyrir bod cyfle i'r Cynulliad roi ei 'siâp unigryw' ei hun ar Dai yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrannu at y gyfran helaeth o weithwyr proffesiynol ym maes tai a hyfforddwyd yng Nghymru sy'n aros yn y proffesiwn yng Nghymru.

Mae gan dai yng Nghymru broblem o ran delwedd. Nid yw'n cael ei gydnabod fel dewis gyrfa prif-ffrwd ac mae mewn gwirionedd wedi ei israddio fel gwasanaeth trwy gael ei gyfuno gyda gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill mewn awdurdodau lleol.

Tra bod cyflymder y newid yng Nghymru yn arafach nag yng ngweddill y DU, mae'r proffesiwn Tai yn newid mewn gwahanol ffyrdd, ac o ganlyniad mae byd addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai yn newid. Er enghraifft mae'r ffaith bod Housing Potential wedi cael ei ddisodli gan Gyngor Sgiliau'r Sector – yn cysylltu datblygu sgiliau â gweithgareddau proffesiynol eraill – yn adlewyrchu pwyslais newydd, ehangach ar reoli cyfleusterau. Mae rôl AWCHOP hefyd yn newid, ac mae'r proffesiwn yn ymateb i faterion polisi newydd o bwys gan gynnwys ymagwedd sy'n gynyddol debycach i'r sector preifat, trosglwyddo stoc, rhyw a materion BME, yn ogystal ag ehangu rôl y gweithiwr tai proffesiynol ym maes adfywio. Gyda'r newidiadau hyn daw'r angen am adolygu cyrsiau'n gyson, ac ailfeddwl am y cysylltiadau a'r dolenni rhwng darparwyr addysg a hyfforddiant proffesiynol yng Nghymru.

O ystyried maint Cymru o'i chymharu â Lloegr, mae'n gymharol hawdd i'r cyrff mwyaf dylanwadol yn y diwydiant gyfarfod ei gilydd yn gyson. Mae AWCHOP yn tyfu o ran pwysigrwydd fel fforwm wedi iddi ymestyn ei haelodaeth i gynnwys Prif Weithredwyr LCC, darparwyr addysgol, CIH ac ati. Yn gynyddol mae'r fforwm hon yn ymwneud â materion polisi, ac mae

cyfle i'r peirianwaith hwn gael ei ddefnyddio'n ehangach wrth ddylanwadu ar ddatblygiad addysg broffesiynol ym maes tai yng Nghymru. Mae'r Panel wedi mynegi diddordeb cryf mewn datblygu strategaeth ar gyfer y maes hwn, ac mae wedi enwebu unigolion i lunio gweithgor ar y pwnc.

Nodir nad yw nifer helaeth o weithwyr proffesiynol ym maes tai yn anelu at gael cymhwyster CIH. Nid yw'n ofynnol, ar hyn o bryd yng Nghymru, i fod yn weithiwr proffesiynol cymwysedig ym maes tai er mwyn ymarfer, ac mae'n 'dal yn gymharol hawdd i gael swydd heb unrhyw gymhwyster tai'. Mewn gwirionedd nododd Housing Potential mai cymhwyster gyda Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yw'r llwybr dewisedig ar gyfer yr 'ochr adeiladu', hefyd bod uwch reolwyr yn fwy tebygol o weithio tuag at gymhwyster MBA. Mae'r CIH felly'n awyddus i ehangu'r mynediad at gyrsiau tai, a byddent yn cefnogi cymryd camau tuag at broffesiynoli'r diwydiant petai'r ymagwedd hon yn cael cefnogaeth ehangach yn y proffesiwn.

Ond o ystyried hyn, mae'n cael ei gydnabod yn gyffredinol bod addysg a hyfforddiant proffesiynol yn fater allweddol ar gyfer y proffesiwn tai a bod bylchau o ran sgiliau. Mae Housing Potential yn gweld y rhain ym maes sgiliau trin pobl, ymrwymo cymunedau a datblygiad cynaliadwy; ac mae'n ystyried y dylid cael mwy o bwyslais ar hyfforddiant technegol a galwedigaethol a hyfforddiant cyflogwyr. Noda Shelter Cymru bod y lefelau uchel o bwysau y mae gweithwyr tai proffesiynol yn gweithio trwyddynt yn golygu 'nad yw sgiliau trin pobl yn cael blaenoriaeth bob amser'. Mae AWCHOP yn dynodi bylchau mewn sgiliau ym meysydd rheolaeth ariannol, marchnata a hyrwyddo, rheolaeth a chyfranogiad tenantiaid. Mae CIH yn mynegi pryder cyffredinol a yw'r cyrsiau tai cyfredol yn eu cyfanrwydd yn rhoi'r ystod lawn o sgiliau sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r agenda cyfredol o adfywio, trosglwyddo stoc, arall gyfeirio ac ati.

Dywedodd Peter Williams o Gyngor y Benthycwyr Morgeisi fod y rhaglenni'n 'eang yn hytrach na dwfn' ac y dylid gweld 'cyfyngiad yn yr hyn a gynigir yng Nghymru a llunio cysylltiadau gweithiol/ymarferol rhyngddynt'. Mae AWCHOP yn ychwanegu at hyn - 'mae'r cyrsiau'n ymddangos fel pe baent yn sefyll yn llonydd a rhaid i ddarparwyr ymateb i newidiadau yn y sector gyda rhagor o hyblygrwydd'. Nododd AWCHOP hefyd y dylid gweld rhagor o bwyslais ar CPD yn hytrach na NVQ tai, gan mai ychydig sy'n gwneud y cyrsiau hynny.

O ran addysg ôl-raddedig roedd cefnogaeth glir a goblygedig i gyrsiau ar lefel ôl-raddedig yng Nghymru. Ond tanlinellwyd yr angen i ymdrin â'r materion daearyddol (cydraddoldeb mynediad yng Ngogledd, Gorllewin a Chanolbarth Cymru) a nodwyd bod cyrsiau israddedig 'dan anfantais' mewn cymhariaeth. Rhaid cofio hefyd bod y CIH yn Lloegr yn edrych ar y cynllun ysgoloriaeth yng Nghymru fel model y maent am ei hyrwyddo yn Lloegr. Mae'r CIH yn cydnabod yr angen i gael cwrs amser llawn ôl-raddedig cryf i gefnogi cyfleoedd rhan-amser.

## Casgliadau

Trwy gyfuno'r wybodaeth a gasglwyd parthed cyrsiau â chanlyniadau'r cyfweliadau â darparwyr a chyrff tai eraill, daeth y pwyntiau allweddol canlynol i'r amlwg.

Mae'n amlwg bod y proffesiwn tai yng Nghymru, yn yr un modd â phroffesiynau'n

gyffredinol, yn mynd trwy gyfnod o newid cyflym. O ganlyniad mae angen adolygu'r cynnyrch sy'n cael eu cynnig gan y gwahanol sefydliadau addysgol yn barhaus. Mae'r sefydliadau eu hunain yn ymwybodol iawn o'r angen hwn. Yn ychwanegol daeth barn gref i'r amlwg trwy'r ymgynghoriadau y dylai'r ddarpariaeth gael ei hystyried yn holistaidd, gan gwmpasu'r gwahanol lefelau a ffurfiau o astudio yn ogystal â hyd a lled y meysydd llafur ac ymagwedd, grwpiau myfyrwyr a dargedir ac ati.

Ymddengys, felly y byddai cefnogaeth i ddatblygu strategaeth gyffredinol ar gyfer addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai yng Nghymru. Mae AWCHOP wedi enwebu is-bwyllgor i ystyried eu hymagwedd. Mae hwn yn ddatblygiad a all fod o gymorth lle gall y darparwyr addysg, CIG (Cymru), y Cynulliad a'r proffesiwn tai yn ei chyfanrwydd nodi'n strategol beth yw'r anghenion addysgol ar gyfer y sector yn y dyfodol. Ymhlith pethau eraill dylid ystyried yr holl gwestiwn o broffesiynoldeb, yn ogystal â ffyrdd y gall strwythur datblygiad proffesiynol effeithio ar ddelwedd maes tai, ac o ganlyniad ei allu i ddenu unigolion medrus ac ymroddedig ychwanegol i'r sector.

Mae amrediad eang o gyrsiau ar gael yn amrywio o seminarau undydd a drefnir gan CIH, Shelter Cymru ac eraill, trwy NVQ hyd at gyrsiau israddedig ac ôl-raddedig. Yn ychwanegol gall gweithwyr tai proffesiynol gael budd o gyrsiau generig - fel cyllid, rheolaeth ac arweinyddiaeth - a redir gan arbenigwyr y tu allan i faes tai ac sy'n addas ar gyfer unigolion o groestoriad eang iawn o broffesiynau.

O wahanol ffynonellau mae'n ymddangos bod bylchau sgiliau yn y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant proffesiynol ar gyfer gweithwyr tai yng Nghymru. Mae'n ymddangos bod y pryder mwyaf am arweinyddiaeth, cynllunio ariannol, cynllunio busnes a sgiliau trin pobl. Nid yw'r amrywiol ffynonellau oll yn dynodi'r un ardaloedd o ran angen, gan fod eu pwyslais yn wahanol. Mae'n ddefnyddiol dyfynnu'r cyrff unigol:

> *'Y pwnc llosg yw'r bwlch mewn sgiliau - yn arbennig ym meysydd **meysydd rheolaeth ariannol, marchnata a hyrwyddo, rheolaeth a chyfranogiad tenantiaid**'* – AWCHOP
>
> *'Mae gweithwyr tai dan bwysau i ymdrin â galw dwys ac efallai nad yw **sgiliau trin pobl** yn cael blaenoriaeth bob amser'* – Shelter Cymru
>
> *'Mae gan CIH Cymru bryder ynglŷn ag a yw'r hyfforddiant cyfredol yn darparu'r sgiliau cywir i fyfyrwyr i ddiwallu'r agenda cyfredol o **adfywio, trosglwyddo stoc, arall gyfeirio ac ati**.'* CIH
>
> *'O ran bylchau sgiliau, **ffyrdd o ymrwymo cymunedau a sgiliau trin pobl** yn gyffredinol oedd yn cael eu tanlinellu. Bylchau eraill yw **materion cymunedol a datblygiad cynaliadwy**'* Housing Potential

Mae'r galw am ddysgu o bellter yng Nghymru yn gryf. Ond dim ond nifer gyfyngedig o gyrsiau y mae canolfan ranbarthol Cymru yn eu cynnig ac mae llawer wedi eu cysylltu â chanolfannau tu allan i'r wlad, mae hyn yn golygu bod y myfyrwyr yn colli'r cyd-destun Cymreig a fyddai ar gael gan ddarparwr o Gymru.

Mae angen ymdrin â delwedd wael tai fel gyrfa. Gwnaeth Housing Potential beth cynnydd yn y maes hwn, mewn ysgolion, ond mae'r rhan fwyaf yn cydnabod ei fod yn dal yn broblem arwyddocaol.

Mae addysg ôl-raddedig yn elfen allweddol o'r astudiaeth hon. Ond mae'n glir oddi wrth farn yr ymatebwyr a'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw mai dim ond un rhan yw o'r ddarpariaeth gyffredinol o addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai yng Nghymru, er mor bwysig yw'r rhan honno.

Mae cytundeb cyffredinol bod y cwrs tai ôl-raddedig yng Nghymru yn werthfawr ac mae pwysigrwydd gradd ymchwil Caerdydd yn cael ei gydnabod. Mae Tai yn rhan o radd 6* Adran Cynllunio Dinas a Rhanbarthol Prifysgol Caerdydd. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o gyrsiau tai yn Lloegr, mae Caerdydd yn cynnig elfen ymarferol estynedig yn ychwanegol at elfennau academaidd cryf. Roedd y rhan fwyaf o landlordiaid wrth ymateb i'r arolwg trwy'r post yn cydnabod y gwerth ychwanegol sydd i'w staff wedi iddynt gwblhau un o gyrsiau Caerdydd.

Er gwaethaf hyn, mae peth trafodaeth ar y defnydd o'r cynllun ysgoloriaeth i gefnogi'r rhaglen ôl-raddedig. Mae hyn yn ymwneud â thair egwyddor yn bennaf. Yn gyntaf bod y cysylltiad â Chaerdydd yn golygu bod y dalgylch yn bennaf yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae hyn yn creu ymdeimlad o 'annhegwch' ymhlith y rhai a allai gael budd sy'n gweithio mewn rhannau eraill o Gymru, a'r cyrff sy'n eu noddi. Tra bod yr ysgoloriaeth yn ddamcaniaethol ar gael iddynt, yn ymarferol mae cyfyngiadau wrth iddynt wneud hynny. O ganlyniad mae canfyddiad bod y De Ddwyrain yn cael gwell gwasanaeth na gweddill Cymru. Yn ail, dim ond astudiaethau ôl-raddedig y mae'r ysgoloriaeth yn eu cefnogi, tra gallai fod yn addas i gefnogi astudiaethau israddedig neu ffurfiau eraill mewn rhai achosion. Yn drydydd mae rhaglenni ôl-raddedig posibl, sy'n cynnig cam ymlaen o gyrsiau israddedig, a chyrsiau eraill (yn ymwneud â'r bylchau mewn sgiliau a nodwyd), nad ydynt ar gael yng Nghaerdydd ar hyn o bryd.

Bydd y mater hwn, a'r dadleuon ar y ddwy ochr, yn cael ei ystyried yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

# 5 Addysg Ôl-Raddedig ym Maes Tai ym Mhrifysgol Caerdydd

## Cyflwyniad

Cynhaliwyd adolygiad manylach ar fater penodol y Cynllun Ysgoloriaeth, y dull y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei ddefnyddio i ariannu myfyrwyr sy'n cymryd y Cwrs Tai MSc amser llawn ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r rhan hon o'r astudiaeth yn tynnu ar:

- Astudiaeth ddesg.
- Dau grŵp ffocws; un yn cynnwys myfyrwyr presennol sy'n mynychu'r Cwrs MSc yng Nghaerdydd, a'r llall yn grŵp o gyn-fyfyrwyr y cwrs.
- Cyfweliadau a gohebiaeth gyda Dr Robert Smith, Uwch Ddarlithydd mewn Tai a Chyfarwyddwr y cyn Ganolfan Rheoli a Datblygu Tai oedd ym Mhrifysgol Caerdydd.

## Cefndir

Yn ei hanfod cwrs trosglwyddo yw cwrs ôl-raddedig Caerdydd.  Fe'i cynlluniwyd i gynnig cyfleoedd i unigolion sydd heb ddim profiad ym maes tai neu â dim ond ychydig iawn o brofiad i ddilyn gyrfa yn y maes.  Un o ddibenion y Cynulliad wrth gomisiynu adolygiad o'r cwrs yw ystyried i ba raddau y mae'r amcan hwn yn cael ei gyflawni'n effeithiol.

Casglwyd nifer o linellau o dystiolaeth er mwyn medru pennu rhai casgliadau ar y cwestiynau hyn, gan gynnwys gwybodaeth gefndirol am y cwrs, grwpiau ffocws â myfyrwyr ac ymgynghori â darparwyr addysg a rhai eraill sydd â diddordeb. Cyn edrych ar y cwestiynau hyn yn fanwl, rhoddir peth gwybodaeth gefndir isod.

## Prifysgol Caerdydd, Tai a'r Cynllun Ysgoloriaeth

Mae Prifysgol Caerdydd (neu fel Athrofa Gwyddoniaeth a Thechnoleg Prifysgol Cymru) wedi darparu addysg ym maes tai ers 1987-88. Mae'r cwrs MSc mewn Tai, o flwyddyn academaidd 2003-04 ymlaen, yn cael ei gynnig fel nifer o ddewisiadau:

- Dwy flynedd amser llawn, gyda lleoliad gwaith
- Un flwyddyn amser llawn, heb leoliad gwaith
- Dwy flynedd rhan-amser, rhyddhau o'r gwaith

Daeth y dewis o ddilyn cwrs blwyddyn amser llawn/ blwyddyn rhan-amser (rhyddhau) i ben.

Mae'r cwrs MSc wedi ei achredu gan CIH ac mae'n cael ei ddilysu bob pum mlynedd. Aseswyd y cwrs yn allanol o ran ansawdd yr addysgu (gan HEFCW) am y tro diwethaf ym 1996-97, pan roddwyd iddo'r radd "rhagorol". Mae'r cwrs yn cael ei adolygu ar ddiwedd pob sesiwn academaidd a'i ddiweddaru fel y gwelir yn dda. Mae'r dulliau o fonitro a gwerthuso'r cwrs yn cynnwys gwerthusiadau gan fyfyrwyr ar ddiwedd pob sesiwn, panel staff-myfyrwyr, adroddiadau gan arholwyr allanol, cyfarfodydd â chyflogwyr ac adolygiad blynyddol o'r cynllun astudio.

Darperir yr addysg tai gan yr Ysgol Cynllunio Dinas a Rhanbarthol (CPLAN). Tîm o saith sy'n bennaf gyfrifol am addysgu'r pwnc:

- Yr Athro Alan Hooper (Cynullydd)
- Yr Athro David Clapham (Cyfarwyddwyr y Cwrs)
- Dr Pauline Card
- Ms Bridget Franklin
- Dr Craig Gurney
- Dr Bob Smith
- Dr Richard Walker (ar absenoldeb ar hyn o bryd)

Mae'r staff tai hefyd yn addysgu ar gyrsiau ôl-raddedig ac israddedig eraill a ddysgir yn CPLAN, ac maent yn cyfrannu at fodylau a gynigir gan Ysgolion eraill yn y Brifysgol. Yn ôl Dr Robert Smith, disgwylir i'r holl staff fod yn weithredol yn eu hymchwil academaidd, gan gyfrannu at gyrraedd 6* a dderbyniodd CPLAN yn ddiweddar am ymchwil.

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer sy'n dilyn y cwrs Tai DipOR/MSc, o'i gychwyniad hyd y flwyddyn academaidd gyfredol.

**Tabl 6 Nifer o fyfyrwyr sy'n dilyn y cwrs DipOR/MSc**

| Blwyddyn | Amser llawn | Rhan-amser | Amser llawn/ Rhan-amser | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 1987-88 | 13 | 6 | - | 19 |
| 1988-89 | 11 | 13 | - | 24 |
| 1889-90 | 10 | 14 | - | 24 |
| 1990-91 | 12 | 14 | - | 26 |
| 1991-92 | 9 | 18 | - | 27 |
| 1992-93 | 10 | 16 | - | 26 |
| 1993-94 | 9 | 18 | - | 27 |
| 1994-95 | 9 | 19 | - | 28 |
| 1995-96 | 7 | 13 | - | 20 |
| 1996-97 | 11* | 19 | - | 30 |
| 1997-98 | 10 | 8 | 5 | 23 |
| 1998-99 | 12 | 12 | 5 | 29 |
| 1999-2000 | 7 | 7 | 8 | 22 |
| 2000-2001 | 8 | 22 | 5 | 35 |
| 2001-2002 | 6 | 11 | 2 | 19 |
| 2002-2003 | 11 | 0 | - | 11 |
| 2003-2004 | 7 | 25 | - | 32 |
| **Totals** | **162** | **235** | **25** | **422** |

**Yn cynnwys un myfyriwr yn ei ariannu ei hun heb Ysgoloriaeth y Swyddfa Gymreig*

Mae pob un bron o'r myfyrwyr a gymerodd y cwrs amser llawn wedi cael eu cyllido gan Ysgoloriaeth y Swyddfa Gymreig/Llywodraeth y Cynulliad ar raddfa 50%, gydag arian cyfatebol gan gyflogwyr. Yr unig eithriad prin yw pan fydd myfyriwr yn darparu'r arian cyfatebol. Mae bron yr holl fyfyrwyr a gymerodd y dewis rhan-amser wedi cael eu cyllido yn llwyr gan eu cyflogwr.  Dim ond yn achlysurol iawn y gwelwyd myfyrwyr rhan-amser yn cyllido eu hunain.

Sefydlwyd y cwrs amser llawn/rhan-amser ym 1997-98 i gael ysgoloriaethau ESRC, ond daeth y llwybr hwn i ben pan dynnwyd y cyllid ESRC yn ôl ar draws y DU.

Ni wnaeth y Brifysgol recriwtio i'r cwrs rhan-amser yn 2002-03 oherwydd bod y cwrs yn cael ei ail-strwythuro ar y pryd. Cyflwynwyd y cwrs newydd o 2003-04 ac mae'n awr yn bosibl, am y tro cyntaf, i wneud y cwrs MSc amser llawn mewn un flwyddyn, heb leoliad gwaith. Nododd y Brifysgol nad yw hi, na chyflogwyr ym maes tai, yn ei barn hi, yn credu bod y myfyrwyr hynny sy'n cymryd y dewis hwn mor "gyflogadwy' a'r rhai sy'n cymryd y dewis dwy flynedd.

Nid yw'r cwrs rhan-amser yn gymwys ar gyfer cyllid trwy Ysgoloriaeth Llywodraeth y Cynulliad ac mae cyrff tai, mae'n amlwg, yn barod i gyllido myfyrwyr sy'n cymryd y dewis hwn yn llawn. Mae hyn yn gweddu'n dda i anghenion cyflogwyr a gweithwyr pan fydd y myfyriwr eisoes yn gweithio i gorff tai.

Fel yr awgrymir yn y deunydd marchnata, amcan y cwrs sy'n rhedeg ar gyfer y flwyddyn 2003-04 yw:

*"...cael myfyrwyr i ymwneud â chymhlethdodau problemau tai, a rhoi'r sgiliau iddynt ddatblygu'n ymarferwyr mwy ystyriol ac ymatebol".*

Mae chwe modwl craidd i'r cwrs, gan gynnwys ar hyn o bryd:

Dau fodwl Polisi a Strategaeth Tai; a

1. Strategaethau a Dewisiadau

2. Rheoli Cyrff Tai

3. Ymarfer Tai

4. Dulliau Ymchwilio ac Arolygu

Yn ychwanegol, mae'r myfyrwyr yn dewis o nifer o feysydd arbenigol i'w hastudio ymhellach, yn eu plith mae:

1. Rheolaeth Tai Sector Cyhoeddus

2. Amrywiaeth a Chydraddoldeb

3. Ymchwil a Pholisi

4. Cynllunio a Datblygu Tai

5. Tai ac Adfywio Trefol

Mae'r cwrs yn cynnwys cyfres o ddarlithoedd, seminarau, gweithdai a gwaith prosiect.  Asesir ar sail gwaith grŵp ac unigol, traethodau, adroddiadau, prosiectau, cyflwyniadau ac arholiadau. Pan fydd lleoliad gwaith yn rhan o'r cwrs, dyrennir goruchwyliwr personol i'r myfyrwyr o'r Brifysgol, yn ychwanegol at oruchwyliwr ar ran y cyflogwr.

Rhaid i ddarpar fyfyrwyr fod naill ai â gradd, neu i'r rhai 25 oed a h_n, o leiaf ddwy flynedd o brofiad ym maes tai mewn

"swydd gyfrifol". Mae'r Adran yn gweithredu polisi cyfle cyfartal, sy'n cynnwys annog myfyrwyr aeddfed, heb raddio gyda phrofiad addas ym maes tai a phobl o gefndiroedd BME i ymgeisio.

### Ymchwil ym maes tai yng Nghaerdydd

Mae ymchwil yn ymwneud â thai yn cael ei gynnal yn y grŵp Ymchwil Tai (un o bum grŵp o'r fath yn CPLAN), gyda'u cwmpas yn cynnwys darpariaeth tai, rheolaeth a datblygu ac agweddau ar ddylunio trefol. Mae'r aelodau'n cynnwys y saith aelod o staff a nodir yn Adran 5.3, a myfyrwyr ymchwil ac aelodau cysylltiol.

Hyd yn ddiweddar roedd gwaith ymchwil y grŵp hwn, wedi ei ganoli o gwmpas y Ganolfan Rheoli a Datblygu Tai. Ond mae gwaith y grŵp Tai yn awr wedi ei blethu i mewn i CPLAN, sydd wedi ei ail-enwi yn "Ysgol Cynllunio Dinas a Rhanbarthol". Felly nid oes Canolfan Rheoli a Datblygu Tai annibynnol mwyach.

Disgwylir i'r holl staff fod yn weithredol o ran ymchwil. Bydd staff yn cydweithio gyda chydweithwyr mewn grwpiau, Ysgolion (Ysgol Fusnes Caerdydd er enghraifft), cyrff allanol ac ymgynghorwyr annibynnol fel y byddant yn gweld bod hynny'n addas. Byddant yn cydweithio hefyd trwy ganolfannau ymchwil trawsadrannol fel Athrofa Adfywio'r Brifysgol a'i Huned Llywodraeth Leol a Rhanbarthol.

Mae'r mathau o weithgaredd ymchwil yr ymgymerwyd ag o wedi eu nodweddu gan y grŵp Ymchwil Tai (y Grŵp Tai ac Amgylchedd Adeiledig gynt) fel:

1. Ymchwil a gyllidir ac nad yw'n cael ei gyllido (staff yn dilyn eu diddordebau ymchwil eu hunain)

2. Ymatebol (e.e. trwy wahoddiadau i dendro) neu ragweithiol (trwy gynigion a gyflwynir i'w hystyried gan gyrff fel ESRC neu Sefydliad Joseph Rowntree).

3. Ymchwil tymor byr, canolig neu hir, gydag enghreifftiau ymatebol yn dueddol o fod yn rhai tymor byr i ganolig, ac ymchwil rhagweithiol am gyfnod hirach.

4. Ymchwil a wneir gan unigolion neu gan dimau

### Materion BME

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu ystod o bolisïau a gynlluniwyd i frwydro yn erbyn y gwahaniaethu a'r anfantais a ddioddefir gan grwpiau BME. Elfen allweddol o hyn yw tai a phobl BME (gweler Adran 4.5). O ran cynllun Ysgoloriaeth Caerdydd, mae dau bwnc llosg: y nifer o fyfyrwyr o gefndir BME sy'n dilyn y cwrs a chynnwys y cwrs o ran materion BME.

Dengys yr wybodaeth a gedwir gan Brifysgol Caerdydd bod rhyw 24 o fyfyrwyr o gefndir BME wedi dilyn y rhaglen tai MSc dros yr 17 mlynedd y mae wedi bodoli. Yn gynyddol fe'i hystyrir yn ymarfer da i gyrff sector cyhoeddus gasglu data sy'n cynnwys manylion o ran ethnigrwydd. Dynododd Dr Robert Smith, Cyfarwyddwr (gynt) y Ganolfan Rheoli a Datblygu Tai, bod y niferoedd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, er eu bod yn isel yn gyffredinol, sy'n unol â maint y boblogaeth BME a'r nifer o weithwyr tai proffesiynol BME yng Nghymru. Mewn gwirionedd prin yw dylanwad y Brifysgol ei hun dros hyn ar y cwrs rhan-amser, gan mai cyflogwyr sy'n cynnig ymgeiswyr fel arfer. Am rai blynyddoedd bu un gymdeithas dai benodol yn targedu lle dan yr Ysgoloriaeth

ar gyfer rhai o'r cymunedau BME, ond daeth hyn i ben.

O ran cynnwys y cwrs, dynododd CPLAN bod *"…materion gwahaniaeth, amrywiaeth a chydraddoldeb yn cael eu trin ar draws nifer o fodylau unigol"*, er ei bod yn anodd mesur effeithiolrwydd yr ymagwedd hon. Yn ddelfrydol, byddai cynnwys o'r fath yn cynnwys defnyddio deunydd astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer da. Ceir modwl arbenigol "gwahaniaeth a chydraddoldeb", lle mae sesiynau penodol ar gyfer materion yn ymwneud â rhyw, ethnigrwydd, anabledd a thai i bobl hŷn. Ond modwl dewisol yw hwn yn hytrach nag un craidd. Pwynt a godwyd ym Mhennod 6 yw y byddai mynediad i addysg a hyfforddiant tai yn cael eu gwella petai ymagwedd hyblyg yn cael ei chymryd, yn cynnwys blociau wythnos o hyd y gellid eu rhoi at ei gilydd i lunio cymhwyster i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Nid yw'n glir, o ystyried ei hathroniaeth sy'n cael ei harwain gan ymchwil, a fyddai gan Brifysgol Caerdydd ddiddordeb mewn cynnig dewisiadau o'r fath.

## Grwpiau Ffocws

### *Myfyrwyr presennol*

Cynullwyd grŵp o 12 o fyfyrwyr oedd yn dilyn y cwrs MSc yn 2003/2004 ym Mhrifysgol Caerdydd ar 30 Gorffennaf, 2003. Y prif bwyntiau a ddaeth i'r golwg yn ystod y drafodaeth oedd y canlynol:

Prif gymhelliant y myfyrwyr dros ddewis y cwrs oedd un ariannol a daearyddol yn bennaf. Nid oedd cymharu ansawdd â chyrsiau eraill yn rhan o'r ystyriaeth. Roedd y mwyafrif, os nad y cyfan, yn cael eu gyrru fwy gan argaeledd ariannu na diddordeb mewn tai. Ystyrid yr MSc fel llwybr cyflym i gael achrediad CIH ac yna ddringo ysgol gyrfa'n gynt.

Roedd y farn am gynnwys y cwrs yn gyffredinol yn gadarnhaol, yn arbennig o ran ei gwmpas eang. Ystyrid bod yr ymdriniaeth ar rai meysydd arbenigol yn wan – TG, cyllid, AD, a chysylltiadau cwsmeriaid; a byddai'r myfyrwyr yn gwerthfawrogi rhagor o astudiaethau achos ac enghreifftiau lleol o arferion. Ystyrid bod gweithgareddau ymchwil yr adran yn ased i'r cwrs.

Ystyrid bod y lleoliad gwaith yn elfen gref, ond byddai llawer ohonynt yn croesawu dewisiadau heblaw'r dewis dau gyfnod (academaidd ac yna lleoliad). Mynegwyd pryder hefyd gan rai am ansawdd y lleoliadau, a allai amrywio.

Bydd y cwrs ar ei newydd wedd yn cynnwys llai o arholiadau a lleoliad hirach. Roedd rhai'n bryderus y gallai hyn wneud y cwrs yn "haws" ac yn ei ddibrisio.

### *Cyn-fyfyrwyr*

Dewiswyd y gwahoddedigion i'r grŵp ffocws hwn gan ECOTEC o restr o enwau a ddarparwyd gan y Brifysgol. Mynychodd wyth o gyn-fyfyrwyr y drafodaeth, a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Celtic Manor, Casnewydd ar 8 Medi 2003. Roedd y prif bwyntiau a wnaed yn ystod y drafodaeth fel a ganlyn:

Y farn gyffredinol oedd ei fod yn gwrs da ar y cyfan. Roedd yn annog myfyrwyr i feddwl yn strategol ac yn helpu i'w codi i'r fan lle'r oeddynt am fod yn eu gyrfaoedd. Pan oeddynt wedi cael achos i gwyno am gynnwys y cwrs, roedd y Brifysgol wedi derbyn y cwynion a gwneud newidiadau, a phwysleisiwyd y dylai'r 'feirniadaeth adeiladol' a wnaed yn ystod y sesiwn gael ei hystyried yng ngoleuni'r farn gyffredinol bositif hon.

Ystyriai'r grŵp mai'r lefel ôl-raddedig yw'r ffordd i mewn i faes tai os oeddech chi am 'fynd yn eich blaen'. Mae cyflogwyr yn awyddus i weithwyr gael cymhwyster er bod y llwybr yn cael ei weld o fwy o gymorth gyda Chymdeithasau Tai nac Awdurdodau Lleol. Roedd ariannu'n ystyriaeth, er, nid dyma'r prif reswm dros fynychu'r cwrs. Ond, nid oedd yr un o'r rhai oedd yn bresennol wedi gwneud penderfyniad bwriadol i fynd i mewn i'r proffesiwn.

Teimlai rhai y gallai cynnwys y cwrs gael ei gadw'n fwy cyfredol ac yn fwy 'ar flaen y gad' a pherthnasol o ran pynciau llosg y dydd - deddfwriaeth newydd a gwerth gorau er enghraifft, yn ogystal â'r problemau ymarferol y mae swyddogion tai yn eu hwynebu. Gallai'r modylau rheoli tai, sgiliau proffesiynol ac ymarferol gael eu gwella, a gallai sgiliau TG gael eu trin yn fwy effeithiol. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol i'r un modwl ar faterion BME gael ei ehangu.

Rhaid i'r cwrs fod yn fwy rhyngweithiol; hefyd, ychydig o gyswllt oedd gyda thiwtoriaid ac ychydig o adborth a geid ganddynt. Teimlid bod y marcio'n anghyson, ac roedd amrywiaeth sylweddol yn lefelau medr y staff addysgu.

Dylid ychwanegu at y cwrs trwy gyrsiau byr/ychwanegol CPD unwaith y byddwch yn y proffesiwn.

Teimlai llawer nad yw'r MSc yn berthnasol i'r swydd y maent yn ei gwneud yn awr mewn gwirionedd, gan mai academaidd yn hytrach nac ymarferol oedd y ffocws, er y gallai'r manteision ddod i'r golwg yn ddiweddarach yn eu gyrfaoedd. Ystyriai llawer bod y cwrs rhan-amser yn rhagori ar y cwrs amser llawn, gan fod gwell cymysgedd o waith ymarferol ac astudiaeth ddamcaniaethol arno. Teimlent y byddai'n ddefnyddiol, yn hyn o beth, i gael rhagor o ymarferwyr o faes tai i addysgu, yn ychwanegol at y tiwtoriaid academaidd.

Oherwydd nad oes gofyn am radd i gael mynediad ar y cwrs, roedd y myfyrwyr wedi sylwi ar y gwahaniaeth yng ngallu'r myfyrwyr oedd yn cael eu derbyn.

Mae rôl gweithiwr tai proffesiynol yn ymdrin ag ystod eang o feysydd fel datblygu cymunedol, materion tenantiaid, strategaeth a gweithrediadau. Roedd lefel uchel o fodlonrwydd mewn swydd ymhlith y cyn-fyfyrwyr, teimlad o wneud gwahaniaeth i fywydau pobl, gosod targedau a'u cyrraedd ac ati. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod swyddogion tai yn aml yn eu cael eu hunain yn wynebu sialensiau a grëir oherwydd prinder gweithwyr cymdeithasol – gall hyn fod yn broblem gan nad oes personél wedi eu hyfforddi'n addas ar gael i gynorthwyo.

Teimlai'r cyn-fyfyrwyr bod canfyddiad negyddol gan bobl o'r tu allan o faes tai fel gyrfa – nid yw wedi ymsefydlu mewn gwirionedd fel proffesiwn, a tu allan i'r diwydiant ychydig iawn sy'n hysbys am beth yn union y mae'r gwaith yn ei olygu. Nid oes gan y cyhoedd yn gyffredinol fawr o ddealltwriaeth o rôl y Swyddog Tai, beth yw eu diben na beth y maent yn ei wneud.

Nid oedd y lleoliadau yn cael eu hymchwilio na'u rheoli ac roeddynt yn amrywio'n fawr o ran yr hyn a gynigid. Byddai'n ddymunol petaent yn cael eu arolygu gan oruchwyliwr i sicrhau bod profiad ymarferol digonol yn cael ei gynnig. Byddai o gymorth hefyd cael hyfforddiant mewn gofal cwsmeriaid gan fod gan y proffesiwn bwyslais ar gwsmeriaid.

## Casgliadau

Y casgliad mwyaf trawiadol o'r grŵp ffocws cyntaf (myfyrwyr presennol) oedd, mewn sefyllfa lle'r oedd llawer ohonynt yn ansicr pa gwrs ôl-raddedig i'w ddilyn, mai argaeledd yr Ysgoloriaeth oedd y prif ddylanwad wrth iddynt benderfynu dod i Gaerdydd. Mae hyn yn ymddangos fel petai'n arwydd da bod y cynllun yn llwyddiannus wrth gyflawni ei amcan allweddol - arallgyfeirio myfyrwyr o ddisgyblaethau eraill tuag at faes tai. Efallai y gellid cwestiynu a fydd gan fyfyrwyr sy'n cael eu cymell mor uniongyrchol gan arian yn hytrach na diddordeb ym maes tai ymrwymiad i'w gwaith, yn arbennig i anghenion y cleientiaid y maent yn eu gwasanaethu. Ond, roedd gwahaniaeth gweladwy rhwng y grŵp cyntaf a'r ail yn hyn o beth - y cyn-fyfyrwyr yn pwysleisio'r bodlonrwydd mewn gwaith yr oeddynt yn ei gael o'u swyddi gan eu bod mewn sefyllfa i 'wneud gwahaniaeth'.

Mae'n anodd gwirio llawer o'r sylwadau a wnaed gan y grŵp cyn-fyfyrwyr, o ystyried bod y cwrs wedi newid dros y blynyddoedd. Yn amlwg, nid yw'n bosibl casglu'n bendant bod y farn a fynegir gan unigolion yn adlewyrchu barn gyffredin. Ond, dylid tynnu sylw at y pwyntiau canlynol lle'r oedd yn ymddangos bod cytundeb bras:

- Yn gyffredinol, roedd yn gwrs da, sy'n annog myfyrwyr i feddwl yn strategol;
- Academaidd oedd pwyslais yr MSc yn hytrach nag ymarferol;
- Mae cyflogwyr yn awyddus iawn i weithwyr gael y cymhwyster, ond nid yw'r cwrs yn cynnig y sgiliau ymarferol sy'n ofynnol;
- Tra nad oes unrhyw wahaniaeth yn y dewis o fodylau sydd ar gael i fyfyrwyr Amser Llawn o'u cymharu â rhai Rhan-Amser, ystyrid mai'r cwrs rhan-amser yw'r gorau gan fod arno well cymysgedd o astudiaeth ymarferol a damcaniaethol;
- Mae angen rhagor o addysgu gan ymarferwyr yn hytrach na gan academyddion ac roedd amrywiaeth mawr yn y lefel o gymhwysedd ymhlith y staff addysgu;
- Dylid ychwanegu at y cwrs trwy gyrsiau byr/ychwanegol Datblygu Proffesiynol Parhaus unwaith bod cyn-fyfyrwyr wedi mynd i mewn i'r proffesiwn;
- Dylai'r cwrs fod yn fyrrach, mater oedd eisoes wedi ei ddatrys wrth i'r cwrs gael ei ail-lansio o 2003/04.

Mae'n ymddangos felly bod y cwrs yn sylfaenol yn cyflawni ei amcan o annog myfyrwyr i faes tai. Hefyd mae cyn-fyfyrwyr a myfyrwyr presennol yn ei ganmol fel cwrs da sy'n rhoi deunydd sy'n ddefnyddiol iddynt yn eu gyrfaoedd ym maes tai. Mae rhai meysydd sy'n ennyn beirniadaeth, a nodwyd trwy'r grwpiau ffocws myfyrwyr y gellir efallai eu crynhoi fel gorbwyslais ar yr academaidd yn hytrach na sgiliau ymarferol, a bod rhai meysydd astudio fyddai'n manteisio o gael eu hadolygu'n fanylach.

Ar y sail hon, mae'n ymddangos bod cwrs Caerdydd, er bod lle i wella mewn rhai cyfeiriadau, yn gwrs da ac y dylid ei barhau. Cwestiwn arall yw ai cynnig Ysgoloriaeth y Cynulliad yw'r ffordd orau o sicrhau ei barhad a byddwn yn ystyried hyn mewn adran ddiweddarach.

# 6 Grwpiau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig

## Cyflwyniad

Bu'r astudiaeth yn adolygu'r pwnc penodol o bobl o grwpiau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) ac addysg a hyfforddiant ym maes tai. Cyffyrddwyd hefyd ar gyd-destun ehangach grwpiau BME a thai.

## Cyd-destun polisi

Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig) 2000 yn rhoi dyletswydd y gellir ei orfodi ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac atal gwahaniaethu ar sail hil. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i awdurdodau lleol, ond er nad yw Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yn cael eu dosbarthu felly, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio sicrhau bod amcanion y ddeddfwriaeth newydd yn cael eu trosglwyddo i LCC trwy Gynllun Gweithredu Tai i bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru a newidiadau dilynol i'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer LCC. Mae cyfres o Godau Ymarfer Statudol a ddarparwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE) yn rhoi arweiniad i Lywodraeth y Cynulliad, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus.

Y Cynllun Gweithredu Tai i Bobl Lleiafrifoedd Ethnig felly yw'r brif sail ar gyfer polisïau. Roedd ei ddatblygiad yn benllanw proses a gychwynnodd gyda chyhoeddi *'O'r Cyrion i'r Canol"* gan y Cynulliad yn 2000, adroddiad oedd yn asesu'r angen am Strategaeth Dai BME yng Nghymru. Yna cynhaliwyd cynhadledd ar faterion tai BME ym Mawrth 2003. Yn Ebrill 2001, bu'r Cynulliad yn ymgynghori ar ei Strategaeth Dai BME arfaethedig, a datblygwyd Cynllun Gweithredu Tai BME Cymru ym Medi 2002 i'w weithredu.

Thema ganolog y Cynllun Gweithredu Tai BME yw'r gofyn a roddir ar bob awdurdod lleol a Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yng Nghymru i gael strategaeth dai BME unigol yn ei lle erbyn Ebrill 2004 (neu i fod yn rhan o strategaeth dai BME ranbarthol neu aml-asiantaethol). Un enghraifft o'r ymagwedd olaf yw'r Strategaeth Tai BME Ddrafft 2003 a baratowyd gan Bartneriaeth Cydraddoldeb LCC Gogledd Cymru ar ran pump LCC a Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru. Yn yr un modd, mae'r chwech ALl yng Ngogledd Cymru yn cydweithredu i baratoi strategaeth dai BME.

Themâu eraill allweddol yn y Cynllun Gweithredu yw:

- Darparu tai a gwasanaethau BME
- Annog tenantiaid BME i gymryd rhan
- Ymdrin ag aflonyddu hiliol
- Hyfforddiant cydraddoldeb hiliol
- Pobl BME a thai sector preifat
- Arfer da ac ymchwil
- Monitro ac adolygu

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yng Nghymru ar hyn o bryd yn paratoi strategaethau tai BME. Yn ychwanegol mae llawer o waith wedi ei wneud, neu yn cael ei wneud gan Lywodraeth y Cynulliad i gasglu tystiolaeth ar amgylchiadau pobl BME yng Nghymru o ran eu cartrefi a'u sefyllfa gymdeithasol-economaidd.

Nid yw'r adroddiad "*O'r Cyrion i'r Canol*" yn cyfeirio o gwbl at y rôl allweddol y gallai nifer gynyddol o weithwyr tai proffesiynol BME (trwy addysg a hyfforddiant) ei chwarae ar draws ystod o faterion. Ond, mae'r strategaeth dai BME ddrafft a baratowyd gan LCC Gogledd Cymru yn cynnwys ymgyrraedd at gydraddoldeb cyfle mewn recriwtio a dethol ac mae'n cydnabod y nifer isel o bobl BME sy'n gweithio i gymdeithasau tai. Mae gan Adran 9 o'r Cynllun Gweithredu BME (Rhoi grym i gyrff tai cymdeithasol BME ac aelodau Llywodraeth y Cynulliad a gweithwyr), ddeilliannau targed i gael nifer o staff BME yn y sector tai cymdeithasol (gan gynnwys aelodaeth o fyrddau LCC) sy'n adlewyrchu cyfansoddiad y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn cynnwys camau 9.11, 9.12 a 9.13:

- Adolygu sgiliau staff BME cyfredol a gweithio gyda nhw i ddynodi cyfleoedd i ddatblygu eu gyrfaoedd.
- Hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant a datblygu'n bositif i staff BME gan gynnwys cyfleoedd am secondiad a mentora.
- Adolygu polisïau hyfforddi a datblygu, gweithdrefnau ac arferion i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn pobl BME a chynnig cyfleoedd i staff BME symud i lefelau uwch.

Nid yw unrhyw un o'r nifer fechan o gynlluniau a ddyluniwyd i ymdrin â'r angen i annog rhagor o bobl BME i fynd i addysg broffesiynol tai, yn hytrach nag i yrfa tai per se, yn benodol i Gymru. Mae'r cynlluniau mwyaf llwyddiannus yn defnyddio system ysgoloriaeth i gynorthwyo myfyrwyr BME i ddilyn cyrsiau tai a byddai hyn yn sicr yn ymddangos fel y ffordd fwyaf uniongyrchol a chost effeithiol o ymdrin â'r mater hwn yng Nghymru. Mae Cam 9.21 o Gynllun Gweithredu Tai BME yn cynnig sail ar gyfer ystyried "gweithredu positif" lle mae monitro'n datgelu bod rhai grwpiau BME yn cael eu tangynrychioli yn y gweithlu. Ond, o safbwynt Llywodraeth y Cynulliad, ychydig iawn o bwynt fyddai yn hyn os na fyddai cyrff tai yng Nghymru yn gwerthfawrogi staff BME a bod y rhain felly yn mynd â'u cymwysterau i rywle arall. Dylai unrhyw symudiad o'r fath felly fod yn rhan o gyfres ehangach o weithgareddau a hynny o fewn fframwaith cyffredinol y Cynllun Gweithredu Tai BME.

## Grŵp ffocws

Tanlinellodd canlyniadau'r grŵp ffocws bwysigrwydd ffocws ar y cwsmer cyn belled ag y mae rhyngweithio rhwng cleientiaid/tenantiaid BME a swyddogion tai dan sylw. Y canfyddiad cyffredinol oedd nad yw swyddogion tai wedi eu paratoi i ymdrin â gwahanol ddiwylliannau. Mae'r canlyniadau felly'n cadarnhau casgliadau'r arolwg trwy'r post, o ran, nid yn unig diffyg ymwybyddiaeth o faterion hil ond hefyd bylchau mewn "sgiliau trin pobl". Mae'r casgliadau o ran grwpiau BME yn tueddu i awgrymu her ehangach o ran gwella'r ffordd y mae swyddogion tai (ac eraill) yn ymdrin â phobl hawdd eu niweidio.

## Cynlluniau sy'n bodoli

Roedd *Llwybrau at Dai* yn rhaglen flwyddyn a gynlluniwyd i gynyddu'r cyfleoedd a'r ymwybyddiaeth o yrfaoedd tai ar gyfer grwpiau sy'n cael eu heithrio. Mae *Llwybrau Plws* yn rhaglen dreialu tair blynedd newydd i ail gyflwyno hyfforddiant gweithredu positif yng Nghymru. Ei nod yw cynyddu'r cyfleoedd i bobl BME yn y sector tai trwy ddarparu rhaglen leoliadau amrywiol am 3 blynedd. Mewn egwyddor,

mae'r cynlluniau Llwybrau'n anfon neges positif bod y corff/sector yn bryderus am dan-gynrychiolaeth a'u bod yn barod i gyflwyno menter weladwy i ymdrin â hynny. Mae'r gallu ganddo i gyflwyno cnewyllyn o staff BME i'r proffesiwn a all ysbrydoli eraill i'w dilyn. Mae'n bwysig cofio na ellir darparu'r cynllun oni bai bod y darparwr hyfforddiant neu gyflogwr yn medru dangos bod grŵp yn cael ei dan-gynrychioli mewn maes arbennig o waith. Deallwn fod nifer uchel o staff BME yn y sector wedi dod ar hyd y llwybr hwn.

Tra bod cefnogaeth gref, mewn egwyddor, i'r cynlluniau hyn, maent yn dueddol o gael eu beirniadu gan y rhai nad ydynt yn gyfforddus â'r cysyniad o weithredu positif (darparu cyfleoedd) ac sy'n ei weld fel gwahaniaethu positif (sicrhau deilliannau). Y munud y bydd unrhyw gynllun yn dechrau gwarantu naill ai cyfweliadau neu swyddi i'r rhai sy'n cymryd rhan yna mae'n gweithredu gwahaniaethu positif ac yn gweithredu'n anghyfreithlon.

Ni ddylai Llwybrau Positif fod yr unig lwybr ar gyfer gweithwyr BME. Y gair mawr (ers tro) ynglŷn â chydraddoldeb ac amrywiaeth yw "prif-ffrydio" a byddai'n rhaid i unrhyw raglen Llwybrau gael ei chynnal ochr yn ochr â mentrau i wella mynediad trwy sianeli prif-ffrwd. Yn arbennig, disgwylir i'r mentrau Llwybrau gysylltu â mentrau prif-ffrwd (e.e. cyrsiau coleg lle bydd myfyrwyr yn cael eu rhyddhau o'r gwaith) yn hytrach na'u disodli. Tynnir sylw yn arbennig at y syniad o gyfres o gyrsiau byr "bloc o wythnos" yn arwain at wahanol lefelau o gymhwyster proffesiynol a allai yn hawdd gael eu cysylltu â Llwybrau.

Wrth eu gweithredu, mae'r rhaglenni cyfatebol yn Lloegr weithiau'n cael eu beirniadu oherwydd:

- "Ansawdd/cymhelliant isel yr hyfforddeion" – yn Lloegr, mae ystod o ddarparwyr gweithredu positif rhanbarthol ac weithiau ni fu eu recriwtio o hyfforddeion cystal ag y gallai fod.

- Diffyg cefnogaeth gan y darparwyr hyfforddiant. Er mwyn ymdrin â'r broblem hon dylid cael adolygiadau cyson i sicrhau bod y mentora o safon uchel a'i fod yn bodloni anghenion yr hyfforddai (e.e. a oes angen mentor benywaidd neu BME?)

### Addysg a hyfforddiant

O ran addysg a hyfforddiant mae'n ymddangos felly bod angen parhaus am:

- Ragor o hyfforddiant ymwybyddiaeth hil i swyddogion tai (mae hyn eisoes yn cael ei drin dan Gynllun Gweithredu Tai BME y Cynulliad a strategaethau tai BME lleol sy'n cael eu datblygu).

- Gwell mynediad at gyrsiau byr i swyddogion tai ar faterion penodol sy'n ymwneud â'u cwsmeriaid.

- Cefnogaeth ariannol i ganiatáu i weithwyr tai BME gael mynediad at gyrsiau hyfforddi byr a thrwy hynny ddatblygu eu gyrfaoedd.

- Ymdrech gynyddol i recriwtio rhagor o bobl o grwpiau BME i'r proffesiwn tai (o bosibl trwy gyfrwng menter benodol i Gymru ar sail ysgoloriaeth).

O ran y cyflenwad o addysg a hyfforddiant yn y sector tai, mae'n ymddangos bod hyblygrwydd yn ystyriaeth allweddol. Byddai mabwysiadu model mwy ymatebol yn gweld darparwyr yn medru diwallu anghenion hyfforddeion o gefndiroedd cynyddol amrywiol yn well trwy gynnig

ystod o gyrsiau byr bloc o wythnos, y gallai hyfforddeion eu rhoi at ei gilydd i lunio "eu cymhwyster eu hunain". Byddai ailstrwythuro'r ddarpariaeth o gwmpas cyrsiau bloc o'r fath, y gellid eu defnyddio fel blociau adeiladu tuag at gymhwyster, yn cynnig llwybr gwahanol i mewn i'r proffesiwn.

## Casgliadau

Mae canlyniadau'r adolygiad polisi yn dangos bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymroddedig iawn i ymdrin â materion yn ymwneud â grwpiau BME a thai. Bydd y polisïau sydd yn eu lle a'r camau sy'n cael eu cymryd yn creu gwelliannau. Elfen arbennig o gref yw'r ymagwedd sy'n gweld y Cynllun Gweithredu Tai BME fel dogfen weithredol, a fydd yn cael ei hadolygu, ei monitro a'i datblygu'n gyson. Mae cydnabyddiaeth glir hefyd na ellir cyflawni amcanion y Cynllun heb weithio mewn partneriaeth. Y cyfranwyr mwyaf arwyddocaol fydd landlordiaid cymdeithasol wrth iddynt drosi eu strategaeth yn weithredu, trwy eu strategaethau tai BME. Felly, tra bod nifer o bwyntiau gweithredu sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag addysg a hyfforddiant i weithwyr tai proffesiynol BME yn y Cynllun Gweithredu, nid yw'n glir eto pa effaith y gellir ei gael yn ymarferol a thrwy ddefnyddio pa ddulliau. Bydd adolygu a monitro'r deilliannau felly yn hanfodol.

Mae tuedd i brif ffocws yr uchod fod ar ymdrin â gwahaniaethau a gwella gwasanaethau i denantiaid a darpar denantiaid BME. Mae cynlluniau sy'n ceisio cynyddu'r nifer o bobl o gefndir BME sy'n gweithio yn y sector tai o fwy o ddiddordeb uniongyrchol i'r astudiaeth hon, a thrwy hynny wella'r ddealltwriaeth o anghenion cwsmeriaid tai o grwpiau BME. Mae'n amlwg felly bod addysg a hyfforddiant yn rhan ganolog o ymdrin â'r sialensiau ehangach. Mae hyn yn cwmpasu hyfforddi pobl ym maes tai o gefndir BME a rhai nad ydynt o gefndir felly, i ddarparu gwell ffocws ar y cwsmer a recriwtio rhagor o bobl BME i'r proffesiwn tai.

Gall Llywodraeth y Cynulliad a'r Grŵp Adolygu Tai BME Cenedlaethol ystyried ffyrdd y gallai addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai i bobl BME, fel modd o gynyddu'r gynrychiolaeth lle mae hynny'n addas, gael mwy o flaenoriaeth wrth i weithgareddau symud tu hwnt i'r camau cyntaf o ddatblygu strategaeth ar lefel leol a rhanbarthol.

Mae'r mentrau *Llwybrau a Llwybrau Plws* wedi gweld canlyniadau calonogol, ond mae angen darparu amrywiaeth o lwybrau i weithwyr tai proffesiynol BME a chryfhau'r cysylltiadau gyda'r ddarpariaeth brif-ffrwd gyfredol. Mae'r Cynllun Ysgoloriaeth yn cynnig un llwybr i annog rhagor o bobl o gefndir BME i droi at addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai.

# 7 Casgliadau ac Awgrymiadau Polisi

Mae'r bennod hon yn crynhoi'n fyr y prif gasgliadau ymchwil a nodir yn fanwl yn yr adroddiad hwn ynghyd ag argymhellion i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Proffesiwn Tai yng Nghymru.

Amcan yr astudiaeth oedd adolygu addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai yng Nghymru, gan edrych yn benodol ar Gynllun Ysgoloriaeth y Cynulliad; ac mae wedi cynnwys ymchwil desg, arolwg trwy'r post, cyfweliadau gydag arbenigwyr allweddol – darparwyr addysg a chwsmeriaid (cyflogwyr a myfyrwyr) – ynghyd ag adolygiad o'r materion BME perthnasol.

Roedd y casgliadau allweddol fel a ganlyn:

Mae sefydliadau addysgol a hyfforddi yng Nghymru yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau Tai sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y proffesiwn, ac felly mae'r sefydliadau hyn yn chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi darparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru. Oherwydd eu ffocws ar y farchnad yng Nghymru, maent yn medru cynnwys elfennau sy'n benodol Gymreig. Cadarnhaodd y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil bwysigrwydd cynnal yr addysg a hyfforddiant Cymreig yma, o ystyried bod gweinyddiaeth Cymru wedi ei ddatganoli, gan gynnwys yn benodol, addysg ôl-raddedig ac ymchwil.

Bu Cynllun Ysgoloriaeth y Cynulliad yn effeithiol iawn wrth annog rhai newydd i ddod i mewn i'r proffesiwn, ac mae cyn-fyfyrwyr Caerdydd yn awr mewn swyddi o ddylanwad ledled y byd tai yng Nghymru. Mae cwrs ôl-raddedig Caerdydd yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y proffesiwn, ac mae graddfa ymchwil 6* Caerdydd yn golygu bod y cynnyrch ymchwil yn cyrraedd safon uchel iawn.

Nid yw'n syndod, o ystyried pa mor gyflym y mae amgylchedd y proffesiwn tai yn newid, bod y grwpiau o weithwyr proffesiynol ym maes tai a gyfwelwyd yn mynegi rhai pryderon o ran addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai yng Nghymru. Roedd ganddynt awgrymiadau adeiladol i'w gwneud hefyd. Mae pryder cyffredinol bod gan y proffesiwn ddelwedd ddi-liw, a bod hyn yn cadw ymgeiswyr newydd draw. Dynodwyd bod anghenion o ran hyfforddiant mewn agweddau penodol ar waith tai - fel sgiliau trin pobl, TG, a chynllunio busnes. Tanlinellwyd anawsterau mynediad oherwydd pellter ffisegol o ddarparwyr addysg gan rai ymatebwyr o'r tu allan i Dde Ddwyrain Cymru; a holodd rhai a ellid ymestyn cynllun ysgoloriaeth y Cynulliad tu hwnt i gwrs ôl-raddedig Caerdydd. Tanlinellodd yr ymchwil hefyd lefel isel o ymwybyddiaeth o faterion BME.

Mae'r awgrymiadau ar gyfer gwella addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai yng Nghymru yn cynnwys sefydlu fforwm lle gall y proffesiwn gymryd ymagwedd fwy strategol tuag at addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai yng Nghymru; y potensial ar gyfer 'proffesiynoli' rhagor ar y proffesiwn tai; cyflwyno cyrsiau ychwanegol neu fodylau ar gyrsiau i dargedu anghenion datblygu penodol; ymestyn cynllun ysgoloriaeth y Cynulliad i gynnwys cyrsiau eraill; ac, edrych ar ffyrdd y gall cynrychiolaeth BME gael ei gynyddu yn y proffesiwn.

O ystyried y gwaith ymchwil a wnaed, ynghyd â'r casgliadau a nodir yn yr adroddiad ac a grynhoir uchod, argymhellir y dylai Llywodraeth y Cynulliad:

Sefydlu fforwm i Gymru gyfan i hwyluso rhagor o gydweithio rhwng darparwyr addysg ym maes tai ac i hyrwyddo gwell dealltwriaeth rhwng darparwyr a chyflogwyr ym maes tai. Byddai AWCHOP yn ymddangos fel man cychwyn da ar gyfer fforwm o'r fath, o ystyried ei brofiad a'i natur gynrychioliadol.

Comisiynu ymchwil pellach ar werth a ffyrdd posibl o symud ymlaen er mwyn darparu graddau uwch o broffesiynoli ymarferwyr ym maes tai yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y rhai sy'n ymdrin â thenantiaid hawdd eu niweidio. Gellid profi rhyw ffurf ar gynllun achredu, gan dynnu ar y gwaith sydd ar y gweill wrth ddatblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol (Cylchlythyr ar y Rhaglen Ddatblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Personol 2003-2004. Llywodraeth Cynulliad Cymru, Arolygaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, 9 Mai 2003). Gellid creu cysylltiadau hefyd gyda Chyngor Sgiliau'r Sector sydd newydd ei sefydlu ar gyfer tai, sydd â diddordeb mewn sicrhau bod fframweithiau hyfforddi cenedlaethol yn cael eu mabwysiadu'n ehangach.

Ystyried, gyda'r proffesiwn, ffyrdd y gellir ymdrin â'r bylchau mewn sgiliau a materion eraill a ddynodwyd yn ystod yr ymchwil hwn.  Ac, os oes angen, ystyried ehangu'r defnydd o gronfa'r ysgoloriaeth.

Ystyried, gyda'r Grŵp Adolygu Tai BME Cenedlaethol, ffyrdd y gall addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes tai i bobl BME gael rhagor o flaenoriaeth. Bydd hyn yn cynorthwyo i gynyddu'r gynrychiolaeth BME yn y sector tai ac yn ei dro yn gwella'r gwasanaethau a gynigir i gymunedau BME.

Ystyried, gyda'r proffesiwn, a ellid cynnig yr Ysgoloriaeth i gyrff tai ar ffurf grant, a fyddai'n cael ei roi trwy gais, ar ran yr ymgeisydd, i fynychu addysg a hyfforddiant cymwys yng Nghymru, i gwmpasu cyrsiau ôl-raddedig (neu "ôl-broffesiynol") a chyrsiau israddedig.

Os penderfynir gweithredu'r penderfyniad hwn, mae'n bwysig rhoi cyfnod digonol o amser i'r holl ddarparwyr ragweld y newidiadau; a bod y Cynulliad a'r proffesiwn yn fodlon y bydd y newid yn arwain at fantais glir. Gallai Llywodraeth y Cynulliad lunio rhestr o ddewisiadau addysg cymwys, ar y cyd gyda'r gymuned tai, trwy ryw fath o fforwm y gellid ei gydlynu gan AWCHOP neu CIH Cymru. Byddai'r fframwaith cymhwyster fyddai'n cael ei sefydlu yn cael ei gynllunio i geisio ymdrin â rhai o'r bylchau a nodwyd yn yr astudiaeth hon, arweinyddiaeth, gweithio gyda phobl, TG a rheoli busnes er enghraifft.

Byddai system ysgoloriaeth ddiwygiedig yn caniatáu dewis ehangach o ran y mathau o hyfforddiant ac addysg fyddai'n cael eu datblygu – o ran pynciau (e.e. arweinyddiaeth, sgiliau busnes, "sgiliau trin pobl", TG, tai â chefnogaeth) a ffurf (cyrsiau modiwlaidd, dysgu o bellter rhan-amser/amser llawn), gan ganolbwyntio'n well ar wir anghenion y sector. Byddai'n rhaid i'r dewisiadau gydymffurfio â meini prawf o ran hyd y cwrs, i gynnal ffocws yr Ysgoloriaeth ar addysg yn gysylltiedig â thai ac osgoi arallgyfeirio i'r farchnad ar gyfer cyrsiau hyfforddi byr. Dylai system, lle mae ceisiadau am grantiau o'r fath yn cael eu hasesu a'u dyfarnu ar sail cystadleuaeth, gynnwys cyfweliadau i ymgeiswyr a pheth mewnbwn gan y Cynulliad. Dylai hyn gael yr effaith o annog yr holl ddarparwyr i adolygu'r ystod o ddewisiadau a gynigir. Y gobaith yw, y bydd llawer yn dewis gweithio'n glos gyda darparwyr eraill i gynnig ateb unigryw Gymreig, ac ar gyfer Cymru gyfan.